Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd
protecting the public through statutory supervision of midwives

# Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

## 1 Ebrill 2012 – 31 Mawrth 2013

2012-2013

Gorffennaf 2013

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol.  Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Tŷ Bevan**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol y Fan**
**CAERFFILI**
**CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 029 20 928850
**Ebost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 029 20 928877
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu

ISBN argraffu 978 0 7504 9554 7
ISBN digidol 978 0 7504 9556 1
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18951

# Cynnwys


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| Rhagair | | 1 |
| 1. | Cyflwyniad a Chefndir | 3 |
| 2. | Cyflawnodd yr AGLI ar gyfer Cymru ei swyddogaeth yn ystod 2012-13 trwy: | 12 |
| | 2.1 Benodi Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI sydd â chymwysterau a phrofiad priodol | 12 |
| | 2.2 Penodi niferoedd digonol o Oruchwylwyr Bydwragedd gyda chymwysterau a phrofiad priodol ledled Cymru | 13 |
| | 2.3 Sicrhau bod ymarfer bydwreigiaeth yn cael ei oruchwylio yn unol â Rheolau a Safonau Bydwragedd | 21 |
| | 2.4 Rhannu arfer nodedig | 27 |
| | 2.5 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth | 29 |
| | 2.6 Ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch | 30 |
| | 2.7 Sicrhau bod polisïau priodol wedi eu sefydlu | 33 |
| | 2.8 Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i arfer sy'n is na'r safon ddelfrydol | 34 |
| 3. | Targedu ein gwaith at yr hyn sydd bwysicaf a sbarduno gwelliant | 41 |
| 4. | Cwynion yn ymwneud â chyflawni'r swyddogaeth oruchwylio | 53 |
| 5. | Edrych i'r dyfodol – ein gwaith yn 2013-2014 a thu hwnt | 55 |

## Rhagair

Mae cael baban yn ddigwyddiad sy'n llawn arwyddocad emosiynol ac yn un a ddylai fod yn brofiad cadarnhaol i famau a'u teuluoedd. Mae bydwragedd ledled Cymru yn chwarae rhan sylfaenol wrth sicrhau profiad cadarnhaol trwy ddarparu gofal bydwreigiaeth diogel o ansawdd uchel. Yn ei dro mae Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) Cymru yn cefnogi bydwragedd trwy sicrhau bod lefelau priodol o oruchwyliaeth statudol ar gael ar eu cyfer a'u bod yn ei dderbyn.

Yr hyn sydd wedi dod yn fwy amlwg yn ystod y ddwy flynedd y bûm i'n bennaeth ar yr AGLl yng Nghymru yw bod angen i'r ffordd y darperir goruchwyliaeth ledled Cymru esblygu a newid er mwyn bodloni'n briodol y gofynion y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn eu gosod yn y blynyddoedd sydd i ddod, ac yn fwyaf pwysig, er mwyn cefnogi bydwragedd yn briodol. Mae cynnydd yn nifer y bydwragedd, gostyngiad yn nifer y bydwragedd sy'n ymgeisio i fod yn oruchwylwyr a nifer gynyddol o uwch fydwragedd yn ymddiswyddo o'r swyddogaeth Goruchwyliwr Bydwragedd, sy'n golygu bod y model presennol o oruchwyliaeth yn anghynaliadwy. Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, gyda dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, rwyf wedi bod yn gweithio gyda Nyrsys Gweithredol a Phenaethiaid Bydwreigiaeth ledled Cymru i ddatblygu model newydd a fydd yn addas i'r diben ac yn gwrthsefyll y newid yn y pwysau a'r galw. Mae'r ffordd ymlaen yn gyffrous i oruchwyliaeth yng Nghymru a bydd gweddill y DU yn edrych ar ganlyniadau ein gwaith gan mai'r farn gyffredinol yw fod angen newid.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn, fel yn y blynyddoedd diwethaf, yn rhoi cofnod o sut y sicrhaodd yr AGLl fod goruchwyliaeth briodol a phrydlon yn cael ei darparu i fydwragedd ledled Cymru yn ystod 2012-13, ond mae hefyd yn rhoi darlun o'r newidiadau y mae Cymru yn eu cynllunio gyda'i rhanddeiliaid. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl bobl hynny sy'n parhau i gyfrannu at waith yr AGLl, yn enwedig y rhai hynny sydd wedi rhoi eu hamser gwerthfawr yn ystod y 12 mis diwethaf ac wedi gweithio gyda ni ar y cynlluniau ar gyfer diogelu goruchwyliaeth ar gyfer y dyfodol er mwyn iddi fod yn addas ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain.

Mae AGIC yn dibynnu ar oruchwylwyr bydwragedd a phenaethiaid gwasanaethau bydwreigiaeth ledled Cymru i'n cynorthwyo i gyflawni ein cyfrifoldebau fel AGLl a hoffwn ddiolch yn bersonol iddynt am eu cyfraniad.  Hoffwn ddiolch hefyd i'r defnyddwyr gwasanaeth hynny ac aelodau o'r cyhoedd a dreuliodd amser yn rhannu eu safbwyntiau a'u profiadau o oruchwyliaeth statudol yng Nghymru gyda ni. Mae eu sylwadau'n werthfawr iawn yn ein hymdrech i wella goruchwyliaeth ledled Cymru.

**Mandy Collins**

**Pennaeth yr AGLl yng Nghymru**

## Pennod 1: Cyflwyniad a Chefndir

1.1 I sicrhau arfer diogel ac effeithiol, mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001[1] yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth gadw cofrestr o'r bydwragedd cofrestredig a sefydlu rheolau a safonau hyfedredd.

1.2 Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 hefyd yn gosod gofyniad statudol sy'n nodi bod yn rhaid i bob bydwraig fod yn destun goruchwyliaeth. Diben sylfaenol goruchwyliaeth yw amddiffyn menywod a babanod trwy fynd ati'n rhagweithiol i hybu a chefnogi ymarfer bydwreigiaeth diogel.

1.3 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ar ran Gweinidogion Cymru, yn cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) yng Nghymru. Mae'n gyfrifol felly am sicrhau bod yr holl fydwragedd yn derbyn goruchwyliaeth statudol o safon foddhaol ledled Cymru, fel sy'n ofynnol dan y Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001) a Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2004, a Rheolau a Safonau diwygiedig mis Rhagfyr 2012[2]).


### Ein swyddogaeth fel AGLl Cymru a sut yr ydym yn ei chyflawni

1.4 Fel AGLl Cymru, mae AGIC yn gyfrifol am y canlynol:

- Bod ar gael i fenywod os ydynt yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar eu gofal bydwreigiaeth nad yw, yn eu barn nhw, wedi derbyn sylw drwy sianelau eraill.
- Darparu fframwaith o gefnogaeth ar gyfer ymarfer goruchwyliaeth a bydwreigiaeth.
- Derbyn data bwriad i ymarfer ar gyfer pob bydwraig sy'n gweithio yn yr AGLl.
- Sicrhau bod pob bydwraig yn bodloni'r gofynion statudol i ymarfer.

[1] Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (y gorchymyn).
[2] Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (31 Rhagfyr 2012), gan fod yr adroddiad hwn yn bennaf yn berthnasol i'r cyfnod cyn newid y rheol, cyfyngir i reolau 2004 yn unig.

- Sicrhau bod addysg a hyfforddiant cychwynnol a pharhaus ar gael i oruchwylwyr.
- Ymchwilio i achosion o gamymddygiad neu ddiffyg cymhwysedd honedig.
- Penderfynu a ddylid atal bydwraig rhag ymarfer dros dro, yn unol â Rheol 5 o reolau a safonau bydwragedd (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2004).
- Arwain y gwaith o ddatblygu safonau ac archwilio goruchwyliaeth.



## Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI

1.5 I'w galluogi i gyflawni'r cyfrifoldebau uchod mae AGIC wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth, a'u cyfrifoldeb nhw, ar ran AGIC, yw:

- Arwain y gwaith o ddatblygu safonau ac archwilio goruchwyliaeth drwy'r AGLI.
- Penodi Goruchwylwyr Bydwragedd.
- Darparu cyswllt ffurfiol rhwng bydwragedd, eu goruchwylwyr a'r cyrff statudol.
- Darparu fframwaith i gefnogi goruchwyliaeth bydwragedd ac ymarfer bydwreigiaeth o fewn ei ffiniau.
- Cymryd rhan yn y gwaith o hwyluso a datblygu rhaglenni paratoi a datblygu parhaus i Oruchwylwyr Bydwragedd.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill a hybu gwaith partneriaeth gyda menywod a'u teuluoedd.

1.6 Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn cynrychioli AGLI Cymru yn fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y Deyrnas Unedig (DU) ac yng nghyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Strategol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI; gan sicrhau bod materion a safbwyntiau Cymreig yn cael eu hystyried yn llawn. Mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd am gynnal perthynas waith dda gyda Swyddog Nyrsio Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am wasanaethau mamolaeth, Prif Nyrs Cymru, y Cynghorydd Proffesiynol ar Fwrdd Cymru Coleg Brenhinol y Nyrsys, Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth Cymru Gyfan a'r Grŵp Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg yng Nghymru.

1.7 Mae'r cyfrifoldeb am arolygu darpariaeth goruchwyliaeth mewn byrddau iechyd penodol ac ardaloedd daearyddol o Gymru wedi ei neilltuo i Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI, fel y'i nodir ar y dudalen nesaf:

**Mae'r Swyddog Bydwreigiaeth Julie Richards** yn gyfrifol am:

- Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf

**Mae'r Swyddog Bydwreigiaeth Vinny Ness** yn gyfrifol am:

- Fwrdd Iechyd Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

## Goruchwylwyr Bydwragedd

1.8 Er mwyn i fydwraig gadw ei chofrestriad, mae'n ofynnol iddi gael goruchwyliwr penodol a rhaid iddynt gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

1.9 Mae'r AGLI ar gyfer Cymru yn gyfrifol am benodi nifer digonol o Oruchwylwyr Bydwragedd er mwyn i oruchwyliaeth fod ar gael i'r holl fydwragedd sy'n gweithio yng Nghymru. Ar 31 Mawrth 2013, roedd 121 o oruchwylwyr bydwragedd mewn swyddi ledled Cymru, gan olygu mai'r gymhareb gyfartalog ar gyfer Cymru gyfan oedd un Goruchwyliwr Bydwragedd i 14 bydwraig. Ceir mwy o fanylion ynglŷn â phenodi a chadw Goruchwylwyr Bydwragedd ym Mhennod 2.

1.10 Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd swyddogaeth allweddol o ran amddiffyn y cyhoedd drwy sicrhau y darperir gwasanaethau bydwreigiaeth diogel o ansawdd da. Yn ei gyhoeddiad Modern Supervision in Action[3] mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi nodi mai cyfrifoldebau allweddol y Goruchwylwyr Bydwragedd yw'r canlynol:

[3] Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2008) Modern supervision in action – a practical guide for midwives.

### Gweinyddol

- Derbyn ffurflenni bwriad i ymarfer a phrosesu'r data ar gyfer yr AGLl.
- Sicrhau bod gan fydwragedd y rheolau a'r canllawiau statudol, a'r polisïau lleol i'w cynorthwyo yn eu gwaith.
- Cyflwyno adroddiadau i'r AGLl am achosion difrifol sy'n ymwneud ag ymddygiad proffesiynol pan mae rheolau a chodau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi eu torri a phan ystyrir bod camau lleol wedi methu â sicrhau arfer diogel.
- Cyfrannu at weithgareddau megis ymchwiliadau cyfrinachol, strategaethau rheoli risg, archwiliadau clinigol a llywodraethu clinigol.

### Rhyngweithiol

- Darparu canllawiau ynglŷn â chynnal cofrestriad; nodi cyfleoedd i ddiweddaru o ran gofynion statudol.
- Creu amgylchedd sy'n cefnogi swyddogaeth y fydwraig ac yn grymuso ymarfer drwy broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.
- Monitro safonau ymarfer bydwreigiaeth drwy archwilio cofnodion ac asesu canlyniadau clinigol.
- Monitro gwasanaethau mamolaeth lleol i sicrhau bod gofal priodol ar gael i'r holl fenywod a babanod.
- Bod ar gael i gynnig arweiniad a chefnogaeth i fenywod sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth.
- Ymchwilio i ddigwyddiadau critigol a nodi unrhyw gamau gofynnol, gan geisio sicrhau profiad dysgu cadarnhaol i'r bydwragedd dan sylw, a chydgysylltu â'r AGLl fel sy'n briodol.

### Datblygiadol

- Bod ar gael i fydwragedd i drafod materion yn ymwneud ag ymarfer a darparu cefnogaeth briodol.

- Sicrhau bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer oruchwyliwr penodol, a bod systemau wedi eu sefydlu i'r fydwraig neu'r goruchwyliwr allu newid hyn, pan fo'n briodol.
- Trefnu cyfarfodydd rheolaidd gyda bydwragedd unigol, o leiaf unwaith y flwyddyn, i'w cynorthwyo i werthuso eu harfer a nodi meysydd i'w datblygu.
- Cymryd rhan yn y broses o nodi a pharatoi Goruchwylwyr Bydwragedd newydd.
- Nodi pan nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd eraill yn cyflawni'r swyddogaeth i safon foddhaol a chymryd camau priodol.

1.11 Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ledled Cymru yn cyflawni'r cyfrifoldebau uchod ar ran AGIC yn ei swyddogaeth fel AGLI Cymru ac maent yn atebol i AGIC am yr holl weithgareddau goruchwylio y maent yn eu cyflawni. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru yn derbyn taliad blynyddol ychwanegol o £1,000 i gydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol sy'n rhan o'r swyddogaeth, ac maent yn gweithio yn unol â Safonau a ddatblygwyd gan Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI ledled y DU. Nod y safonau hyn yw darparu model rhagweithiol o oruchwyliaeth ar gyfer yr holl fydwragedd, a all fod yn gweithio mewn lleoliadau amrywiol, ac adlewyrchu'r safon ofynnol y mae'n rhaid ei chyflawni o ran goruchwyliaeth statudol. Mae copi o Safonau Goruchwyliaeth yr AGLI ar gael yn www.lsamoforumuk.scot.nhs.uk

## Adroddiad blynyddol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

1.12 Bob blwyddyn mae'n ofynnol i AGIC ddarparu adroddiad i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn nodi sut y cyflawnodd ei swyddogaethau fel Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLI) Cymru. Mae Rheol 16, Safon 3 o'r Rheolau a Safonau Bydwreigiaeth (2004) yn nodi'n benodol y dylai'r adroddiad blynyddol gynnwys, ond nid o reidrwydd fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd a benodwyd, a ymddiswyddodd ac a dynnwyd o'u swydd.

- Manylion sut y sicrheir bod Goruchwyliwr Bydwragedd ar gael yn barhaus ar gyfer bydwragedd.
- Manylion sut y mae'r ymarfer bydwreigiaeth yn cael ei oruchwylio.
- Tystiolaeth bod defnyddwyr gwasanaeth wedi eu cynnwys yn y broses o fonitro goruchwyliaeth bydwragedd ac wedi cynorthwyo swyddogion bydwreigiaeth yr awdurdod goruchwylio lleol â'r archwiliadau blynyddol.
- Tystiolaeth o ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch ynglŷn â chyfraniad goruchwyliaeth at addysg bydwreigiaeth.
- Manylion unrhyw bolisïau newydd sy'n ymwneud â goruchwylio bydwragedd.
- Tystiolaeth o dueddiadau sy'n datblygu ac a fydd yn effeithio ar ymarfer bydwreigiaeth yn yr awdurdod goruchwylio lleol.
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â'r dull o gyflawni'r swyddogaeth oruchwylio.
- Adroddiadau ynglŷn â'r holl ymchwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gan yr awdurdod goruchwylio lleol.

1.13 Er mwyn bodloni gofynion Rheol 16, Safon 2 sy'n nodi

*'Each local supervising authority will ensure their report is made available to the public.'*

bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC www.hiw.org.uk. Hefyd, mae copïau electronig wedi eu hanfon ar Brif Weithredwyr a Nyrsys Gweithredol sefydliadau'r GIG ynghyd â swyddogion Llywodraeth Cymru, Penaethiaid Gwasanaethau Bydwreigiaeth, Penaethiaid Addysg Bydwreigiaeth/ Bydwragedd Arweiniol ar gyfer Addysg a Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt, Coleg Brenhinol y Bydwragedd a Chadeiryddion Pwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth i'w dosbarthu trwy eu rhwydweithiau.

1.14 Caiff Adroddiad Blynyddol yr AGLI ei baratoi yn Saesneg ac yn Gymraeg, ond mae modd gwneud cais hefyd am gopi ar ffurfiau neu mewn ieithoedd gwahanol.

Mae croeso i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd wneud cais am gopïau caled o Adroddiad Blynyddol yr AGLl a dogfennau perthnasol.

1.15 I fodloni gofyniad Rheol 16 Safon 3, rydym wedi nodi ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn sut y bodlonodd yr AGLl ar gyfer Cymru y safonau a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystod 2012-13. Er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd, defnyddiwyd y penawdau cyffredinol a nodwyd ym mharagraff 1.12 uchod. Mae gwybodaeth o'r adroddiadau blynyddol lleol a anfonwyd at yr AGLl gan sefydliadau'r GIG wedi eu defnyddio wrth lunio ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

# Pennod 2: Cyflawnodd yr AGLI ar gyfer Cymru ei swyddogaeth yn ystod 2012-13 trwy:

## 2.1 Benodi Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI sydd â chymwysterau a phrofiad priodol

2.1.1 Mae dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI wedi bod yn eu swyddi ers 2011. Roedd hyn wedi i'r ddau a oedd yn gwneud y swyddi'n flaenorol, a Phennaeth AGLI Cymru ar y pryd, ymddiswyddo.

2.1.2 Yn unol â'r gofynion a nodwyd yn Rheol 13, mae'r ddwy a benodwyd yn fydwragedd sy'n ymarfer ac maent yn bodloni'r safonau o ran profiad ac addysg a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

2.1.3 I gryfhau'r trefniadau llywodraethu ymhellach ac i sicrhau bod Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn rhan o drefniadau rheoli perfformiad AGIC, penodwyd Dirprwy Brif Weithredwr AGIC i swydd Pennaeth yr AGLI ym mis Mawrth 2011. Hi yw rheolwr llinell dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI.

2.1.4 I sicrhau bod swyddogaeth yr AGLI yn cael ei chyfuno yn rhan o brosesau llywodraethu a rheoli AGIC fel sy'n briodol, mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn mynychu cyfarfodydd Tîm Uwch Reolwyr AGIC, a gynhelir yn fisol. Yn ystod blwyddyn adroddiad 2012–2013 gweithiodd yr AGLI yng Nghymru gan ddilyn cynllun gweithredol cadarn a chwblhawyd yr holl gamau a gynlluniwyd yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt. Pan oedd amgylchiadau'n golygu bod angen newid yr amserlen wreiddiol, trafodwyd hyn a chytunwyd ar amserlen newydd gyda Phennaeth yr AGLI trwy gyfarfodydd rheoli perfformiad misol. Cadwyd cofrestr risg ochr yn ochr â'r cynllun gweithredol a chafodd hon hefyd ei haddasu a'i monitro'n rheolaidd mewn cyfarfodydd perfformiad misol.

## 2.2 Penodi niferoedd digonol o Oruchwylwyr Bydwragedd gyda chymwysterau a phrofiad priodol ledled Cymru

2.2.1 Mae rheol 11 o Reolau a Safonau Bydwragedd yn rhoi dyletswydd ar yr AGLl i

> *'appoint an adequate number of supervisors of midwives over practicing midwives in its area.'*

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, ar 31 Mawrth 2013 roedd 121 o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi eu penodi, ac roedd 1,748 o fydwragedd wedi hysbysu'r AGLl am eu bwriad i ymarfer fel bydwraig yng Nghymru yn ystod 2012-13. Felly, 1:14 oedd cymhareb gyfartalog Cymru gyfan o Oruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd ar 31 Mawrth 2012 ac roedd yn cyd-fynd â'r canllaw o 1:15 a osodwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

2.2.2 Fodd bynnag, fel y gellir gweld o'r ffigurau sydd wedi eu nodi yn Nhabl 1 roedd cymhareb gyfartalog y Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd yn ystod 2012-2013 yn amrywio o un Bwrdd Iechyd i'r llall; ac nid oedd dau o'r saith bwrdd iechyd yn cydymffurfio â'r canllawiau yn gyson. Yn ystod 2012-13 parhaodd yr AGLl i ddarparu cymorth ychwanegol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr lle yr amrywiodd y gymhareb o Oruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd o 1:16 i 1:18. Parhaodd cymhareb Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i amrywio hefyd yn ystod y flwyddyn o 1:15 i 1:16. Yn ystod y flwyddyn, roedd gan y ddau fwrdd iechyd oruchwyliwr bydwragedd ar gyfnod o absenoldeb a chafwyd dad-ddetholiadau annisgwyl o'r swyddogaeth Goruchwyliwr Bydwragedd. Parhawyd i ddarparu cymorth goruchwylio i Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gan Fwrdd Iechyd cyfagos. Hefyd, tuag at ddiwedd y flwyddyn cynyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr nifer yr oriau a oedd ar gael i'w Goruchwylwyr Bydwragedd ar gyfer goruchwyliaeth.

2.2.3 Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd yr AGLl gyda Phenaethiaid Bydwragedd a Nyrsys Gweithredol i ddatblygu cynllun hirdymor gyda'r nod o ymdrin â phroblemau parhaus ynglŷn â gallu Goruchwylwyr Bydwragedd i ymdopi â'r llwyth gwaith. Trafodir hyn ymhellach ym Mhennod 5.

**Tabl 1: Cymhareb y Goruchwylwyr Bydwragedd i fydwragedd ym mhob darparwr gwasanaethau mamolaeth ar 31 Mawrth 2013:**

| Bwrdd Iechyd | Nifer y Bydwragedd | Nifer y Goruchwylwyr | Cymhareb y goruchwylwyr i fydwragedd |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 308 | 20 | 1:15.4 |
| Aneurin Bevan | 291 | 18 | 1:16.1 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 393 | 21 | 1:18.7 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 293 | 19 | 1:15.4 |
| Cwm Taf | 223 | 18 | 1:12.4 |
| Hywel Dda | 197 | 19 | 1:10.4 |
| Powys | 43 | 6 | 1:7.2 |
| Annibynnol | 0 | | |
| **Cyfanswm (Cymru gyfan)** | **1748** | **121** | **1:13.7** |

### Dethol ymgeiswyr i'r Cwrs Paratoi ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd

2.2.4 Mae'r AGLI yn rhoi blaenoriaeth barhaus i recriwtio a dethol Goruchwylwyr Bydwragedd. Yn ystod 2012-13 defnyddiwyd strategaeth recriwtio weithredol a pharhaus gan Oruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt[4], gyda chefnogaeth y Penaethiaid Bydwreigiaeth. Y cam cyntaf tuag at benodiad fel Goruchwyliwr Bydwragedd yw derbyn lle ar y cwrs paratoi ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd. Dechreuodd naw bydwraig y cwrs paratoi i fod yn Oruchwyliwr Bydwragedd ym mis Hydref 2012.

2.2.5 Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt ledled Cymru yn cymryd y cyfrifoldeb am sicrhau bod swydd y Goruchwyliwr a'r Cwrs Paratoi ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu hysbysebu'n briodol ac am annog a chefnogi bydwragedd sydd â phrofiad priodol i wneud cais. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, cynhaliodd nifer o dimau Goruchwylwyr Bydwragedd sioe deithiol recriwtio yn eu hardaloedd lleol i godi proffil goruchwyliaeth a chefnogi bydwragedd sydd â diddordeb mewn ymgeisio am y cwrs paratoi. Anogwyd bydwragedd a oedd â diddordeb, gan nifer o dimau Goruchwylwyr Bydwragedd, i gysgodi Goruchwylwyr

[4] Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt yn hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng yr AGLI a'r Byrddau Iechyd.

Bydwragedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r swyddogaeth ac i fynd i gyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd. Parhaodd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl i gynnal *'clinigau gwrando'* a daeth nifer debyg i'r llynedd o fydwragedd i'r rhain i drafod yn uniongyrchol gyda Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl, eu diddordeb mewn bod yn Oruchwyliwr Bydwragedd.

2.2.6 Mae'n ofynnol i fydwragedd sydd â diddordeb mewn dilyn y Cwrs Paratoi eu henwebu eu hunain i ddechrau ac yna casglu deg datganiad o gefnogaeth gan eu cydweithwyr gan ddefnyddio'r templed sydd yng Nghanllaw Cenedlaethol C[5]. I ategu eu cais rhaid iddynt hefyd gyflwyno traethawd academaidd 1,000 o eiriau i'r AGLl, dan deitl sy'n berthnasol i oruchwyliaeth statudol, ac amlinellu pa rinweddau sydd ganddynt a fyddai'n eu cynorthwyo i gyflawni swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd. Defnyddir y traethawd a'r datganiadau cefnogaeth i greu rhestr fer o ymgeiswyr i'w cyfweld.

2.2.7 Mae'r broses o ddethol drwy gyfweliad yn cynnwys trafodaeth grŵp ac yna cyfweliadau unigol gan banel sy'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, Pennaeth Bydwreigiaeth, adolygydd lleyg a benodwyd gan yr AGLl, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol ac arweinydd addysg y Cwrs Paratoi.

2.2.8 Defnyddir elfen trafodaeth grŵp y broses ddethol i asesu a oes gan y bydwragedd y wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau priodol sy'n ofynnol er mwyn bod yn Oruchwyliwr Bydwragedd.

2.2.9 Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, llwyddwyd i recriwtio ar gyfer Cwrs Paratoi 2012-13, a ddechreuodd ym mis Medi 2012. Cafwyd 30 o geisiadau, a dewiswyd 20 i'r rhestr fer i dderbyn cyfweliad (cynhaliwyd y cyfweliadau ym mis Awst 2012). Mae'r broses o roi sylwadau i ymgeiswyr llwyddiannus a rhai aflwyddiannus wedi gwella yn ystod y flwyddyn, a bellach bydd pob ymgeisydd yn derbyn sylwadau ysgrifenedig ac ar lafar ynglŷn â'u perfformiad yn yr ymarfer trafodaeth grŵp a'r cyfweliad er mwyn eu galluogi i nodi meysydd i'w datblygu.

[5] Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLl y DU- Canllaw Cenedlaethol C-Enwebu, dethol a penodi goruchwylwyr bydwragedd.

2.2.10 Dechreuodd wyth bydwraig y cwrs paratoi ym mis Medi 2011 a chwblhaodd saith o'r rhain y cwrs ym mis Gorffennaf 2012. Roedd angen cymorth ar un myfyriwr i ailgyflwyno ei phortffolio ac roedd yn llwyddiannus ar ei hail ymgais ym mis Medi 2012. Gohiriwyd un penodiad tan 2013 oherwydd salwch. Defnyddiodd Goruchwylwyr Bydwragedd a oedd newydd eu penodi offeryn cymhwysedd yr AGLI i nodi a chynllunio eu hanghenion datblygu yn ystod eu cyfnod praeseptoriaeth.

2.2.11 O ystyried y drafodaeth sy'n parhau ynglŷn â model goruchwyliaeth yng Nghymru yn y dyfodol, mae'r AGLI wedi penderfynu peidio â recriwtio i'r rhaglen baratoi ar gyfer 2013-14.

### Penodi Goruchwylwyr Bydwragedd, eu dad-ddethol, ymddiswyddiadau ac absenoldebau

2.2.11 Yn ystod y flwyddyn, penodwyd wyth o Oruchwylwyr Bydwragedd ledled Cymru. Daeth saith o'r rhai a benodwyd o'r gronfa o fydwragedd a oedd wedi dilyn y rhaglen baratoi ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd yn ystod 2011-12 ac roedd un yn Oruchwyliwr Bydwragedd profiadol a symudodd i weithio yng Nghymru.

**Tabl 2: Tueddiadau o ran penodi a dad-ddethol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf**

| Nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd: | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-2013 |
|---|---|---|---|
| Penodwyd yn ystod y flwyddyn | 9 | 11 | 8 |
| Tynnwyd o'r swydd (dad-ddethol gan yr AGLI) | 0 | 0 | 0 |
| Ymddiswyddiad (dad-ddethol eu hunain) | 9 | 19 | 21 |
| Atal o'r swydd dros dro (atal gan yr AGLI) | 0 | 0 | 0 |
| Atal o'r swydd dros dro (atal ei hun) | 0 | 0 | 0 |
| Dechrau'r cwrs paratoi (mis Medi) | 12 (2010) | 8 (2011) | 9 (2012) |
| Cyfnod o absenoldeb | | | 9 |
| **Cyfanswm nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd mewn swydd** | **149** | **135** | **130** |

2.2.12 Fel y gwelir yn Nhabl 2 uchod, ymddiswyddodd 21 o fydwragedd o'r swyddogaeth yn ystod y flwyddyn. Cynigiwyd cyfweliad ymadael i bob unigolyn yn

unol â Chanllaw E y DU[6]. Mae Tabl 3 yn dangos mai'r prif reswm am ddad-ddethol oedd cynnydd mewn pwysau gwaith/materion personol/teuluol neu ymddeol o'u swydd barhaol.

**Tabl 3: Tueddiadau o ran dad-ddethol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf**

| Rheswm am Ddad-ddethol | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-13 |
|---|---|---|---|
| Newid yn swydd barhaol y Goruchwyliwr Bydwragedd | 3 | 2 | 2 |
| Ymddiswyddo o'r swydd/symud o Gymru | 1 | 5 | 2 |
| Ymddeol o'r swydd barhaol | 3 | 4 | 5 |
| Pwysau gwaith | 2 | 6 | 6 |
| Problemau personal/teuluol, gan gynnwys salwch | 2 | 2 | 5 |
| Dim rheswm wedi ei nodi | 1 | 0 | 1 |
| Dad-ddethol o'r swydd (dad-ddethol eu hunain) | 9 | 19 | 21 |

2.2.13 Yn ychwanegol, yn ystod blwyddyn yr adroddiad, bu naw Goruchwyliwr Bydwragedd ar gyfnod o absenoldeb am rhwng chwech a 18 mis am resymau personol/teuluol, newid yn eu swydd barhaol a/neu broblemau iechyd a oedd yn ei gwneud yn anodd iddynt ymrwymo i'r cyfrifoldebau ychwanegol o fod yn Oruchwyliwr Bydwragedd. Fel y nodwyd y llynedd, mae'n ymddangos bod tueddiad cynyddol o geisiadau am gyfnod o absenoldeb, ac mae'r AGLI wedi eu cefnogi er mwyn cynorthwyo i gadw Goruchwylwyr Bydwragedd profiadol yn y tymor hirach. Mae'r AGLI yn ymgysylltu'n weithredol ag unigolion sydd ar gyfnod o absenoldeb ac yn rhoi cymorth iddynt wrth eu hail-gyflwyno i swyddogaeth Goruchwyliwr Bydwragedd, pan fyddant yn barod i ddychwelyd. Mae'r AGLI hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau Goruchwylwyr Bydwragedd lleol i fonitro'r effaith y mae cyfnodau o absenoldeb yn ei gael ar lwyth gwaith parhaus y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd.

2.2.14 Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cynnydd wedi bod yn nifer y Goruchwylwyr Bydwragedd sy'n dad-ddethol yn ogystal â chynnydd parhaus yn y ceisiadau am gyfnod o absenoldeb. Er gwaethaf strategaethau recriwtio eang a chynlluniau manwl ar gyfer olyniaeth, dim ond 28 o Oruchwylwyr Bydwragedd a

[6] Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLI y DU- Canllaw Cenedlaethol E-Dad-ddethol gwirfoddol o'r swyddogaeth fel goruchwyliwr bydwragedd.

benodwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Dad-ddetholwyd 49 yn ystod yr un cyfnod.  Mae wedi dod yn amlwg, yn ystod y 18 mis diwethaf, bod y sefyllfa bresennol yn anghynaliadwy.  Mewn ymateb i hyn, mae'r AGLl wedi bod yn gweithio gyda Chyfarwyddwyr Nyrsio, Penaethiaid Bydwreigiaeth a rhanddeiliad eraill sydd â diddordeb gan gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Llywodraeth Cymru a Choleg Brenhinol y Bydwragedd i ddatblygu model o oruchwyliaeth i Gymru sy'n gynaliadwy ac sy'n sicrhau bod yr holl fydwragedd sy'n gweithio yng Nghymru yn derbyn goruchwyliaeth briodol a phrydlon ac felly bod menywod a babanod yn cael eu diogelu gan fod safonau diogel ymarfer bydwreigiaeth yn cael eu hybu'n weithredol.  Trafodir y cynllun ar gyfer rhoi model goruchwyliaeth diwygiedig ar waith ym Mhennod 5.

### Amser a ddiogelir

2.2.15 Yn ystod y flwyddyn, parhaodd yr AGLl i weithio gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth i sicrhau bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael amser a ddiogelir a chefnogaeth i wneud y swydd.  Wedi i Oruchwylwyr Bydwragedd fynegi pryderon nad oedd digon o amser yn cael ei a neilltuo iddynt i gyflawni'r swyddogaeth, cyflwynwyd offeryn adroddiadau eithrio gan yr AGLl ym mis Hydref 2011.  Diben yr offeryn hwn yw galluogi'r Goruchwylwyr Bydwragedd i hysbysu'r AGLl a'r Pennaeth Bydwreigiaeth yn fewnol am bryderon, pan nad oes amser yn cael ei ddiogelu neu pan nad yw'r amser hwnnw ar gael mewn gwirionedd.  Hyd yn hyn, dim ond nifer fach o Oruchwylwyr Bydwragedd sydd wedi defnyddio'r offeryn adroddiadau eithrio i amlygu'r heriau y maent yn eu hwynebu o ran sicrhau amser a ddiogelir.  Er hyn, mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i hysbysu'r AGLl yn anffurfiol am bryderon ynglŷn â'r drafferth barhaus o ran cydbwyso eu llwyth gwaith bydwreigiaeth cynyddol a'u cyfrifoldebau fel Goruchwyliwr Bydwragedd.

2.2.16 Yn ystod 2011-2012, cyflwynodd nifer o Fyrddau Iechyd restrau gwaith electronig a phrosesau ar gyfer cymeradwyo amser ychwanegol a ddiogelir ar gyfer cynnal ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd.  Mae'r AGLl yn falch o nodi bod nifer gynyddol o Fyrddau Iechyd wedi mabwysiadu dull o'r fath yn 2012-2013.

2.2.17 Ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, nid oedd yr un tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru yn cydymffurfio'n llawn â'r broses Adolygiad Goruchwyliaeth Blynyddol, sy'n nodi ei bod yn ofynnol i bob bydwraig gyfarfod â'i Goruchwyliwr Bydwragedd benodedig o leiaf unwaith mewn cyfnod o 12 mis. Trafodir hyn yn fwy manwl yn nes ymlaen yn y bennod hon.

### Datblygiad proffesiynol parhaus a diweddaru arferion gwaith

2.2.18 Er mwyn sicrhau bod yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd yn bodloni Rheol 11[7] mae AGLI Cymru'n ymroddedig i sicrhau bod yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd sy'n gweithio yng Nghymru yn gallu manteisio ar weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a chyfleoedd i ddiweddaru eu hymarfer.

2.2.19 Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd yr AGLI gyda Goruchwylwyr Bydwragedd i ymwreiddio'r offeryn hunanasesu ar sail cymwyseddau a ddatblygwyd ac a weithredwyd yn 2011-12. Mae gan yr offeryn 21 o safonau unigol sy'n galluogi Goruchwylwyr Bydwragedd i fapio eu profiad yn barhaus o'i gymharu â Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth/AGLI a nodi unrhyw fylchau mewn profiad a hyfforddiant. Mae'r offeryn hefyd yn galluogi Goruchwylwyr Bydwragedd a thimau Goruchwylwyr Bydwragedd i lunio cynlluniau gweithredu CAMPUS (**C**yraeddadwy, **A**mserol, **M**esuradwy, **P**enodol, **U**chelgeisiol, **S**ynhwyrol).

2.2.20 Trwy ddadansoddi'r hunanasesiadau a gyflwynwyd yn ystod 2011-12, gwelwyd bod bylchau a diffygion o ran y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn cynnal ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd i safon broffesiynol. O ganlyniad, yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd yr AGLI weithdai lleol ledled Cymru i gynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd i wella eu sgiliau ymchwilio ac ysgrifennu adroddiadau. Lluniodd yr AGLI hefyd lyfr gwaith ymchwilio a ddefnyddir fel adnodd hyfforddi gan yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd. Mae'r llyfr gwaith yn darparu fframwaith ar gyfer ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd ac yn cynnwys templedi enghreifftiol gyda'r nod o wella ansawdd ymchwiliadau.

[7] Mae Rheol 11 o Reolau a Safonau Bydwragedd (2004) yn nodi'r cymwyseddau ar gyfer penodiad fel goruchwyliwr bydwragedd.

2.2.21 Dangosodd y dadansoddiad hefyd nad oedd y Goruchwylwyr Bydwragedd bob amser yn deall eu llinellau atebolrwydd a than amgylchiadau penodol, nad oeddent yn gallu gwahaniaethu rhwng dyletswyddau yr oeddynt yn eu cyflawni fel Goruchwyliwr Bydwragedd a rhai yr oeddynt yn eu cyflawni fel rhan o'u swydd barhaol. Mewn ymateb i hyn, cynhaliodd yr AGLl ddwy gynhadledd yn ne a gogledd Cymru ar 5 a 21 Tachwedd 2012. Roedd y gynhadledd '*Are you Duty Bound?'* yn canolbwyntio ar roi mwy o eglurhad i Oruchwylwyr Bydwragedd ynglŷn â'u cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd. Cadeiriwyd y gweithdai gan Gynghorydd Bydwreigiaeth Llywodraeth Cymru, Dirprwy Brif Weithredwr AGIC a Chyfarwyddwr Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y cynhadleddau yn herio Goruchwylwyr Bydwragedd i ystyried eu dyletswydd gofal fel bydwraig a Goruchwyliwr Bydwragedd.

2.2.22 Parhaodd yr AGLl i drefnu cyfleoedd cysgodi i Oruchwylwyr Bydwragedd er mwyn gwella eu dealltwriaeth o swyddogaeth yr AGLl a swyddogaeth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, hybu swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd ymhellach a chynllunio ar gyfer olyniaeth. Darparwyd cyfleoedd datblygu eto trwy gydol y flwyddyn a chafodd Goruchwylwyr Bydwragedd eu cynnwys ym mhroses archwilio flynyddol yr AGLl a chyfweliadau recriwtio a ddisgrifir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

2.2.23 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gyda chyllid gan yr AGLl darparwyd cyfleoedd hyfforddi a datblygu ychwanegol ar lefel leol/bwrdd iechyd unigol trwy ddiwrnodau astudio a chyfnodau o *'amser i ffwrdd'* er mwyn i'r Goruchwylwyr Bydwragedd gynllunio eu blaenoriaethau gwaith. Roedd y diwrnodau astudio a'r sesiynau hyfforddi yn cynnwys pynciau fel ymarferion sgiliau argyfwng a chadw cofnodion. Cynhaliwyd diwrnod ymwybyddiaeth i Oruchwylwyr Bydwragedd ynglŷn â'r broses *'Putting Things Right'* hefyd. Defnyddiodd llawer o Oruchwylwyr Bydwragedd y cyllid i fynd i gynadleddau allanol er enghraifft cynhadledd ar enedigaeth a'r gyfraith gan Goleg Brenhinol y Bydwragedd ac i gefnogi diwrnodau arweinyddiaeth a datblygiad.

**Yn ystod 2013-14 bydd yr AGLI:**

- Parhau i ddefnyddio offeryn cymwyseddau'r Goruchwylwyr Bydwragedd i sicrhau y nodir ac yr ymdrinnir ag anghenion o ran hyfforddi a datblygu.
- Parhau i gynnig cyfleoedd cysgodi a datblygu i Oruchwylwyr Bydwragedd er mwyn gwella eu dealltwriaeth o swyddogaeth yr AGLI a Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, hybu swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd ymhellach a chynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Defnyddio gwybodaeth a gasglwyd ynglŷn â niferoedd Goruchwylwyr Bydwragedd, dad-ddetholiadau ac anghenion hyfforddi i gyfrannu at drafodaeth barhaus ynglŷn â dyfodol goruchwyliaeth yng Nghymru.

## 2.3 Sicrhau bod ymarfer bydwreigiaeth yn cael ei oruchwylio yn unol â Rheolau a Safonau Bydwragedd

2.3.1 Mae Rheol 12 yn nodi'r gofynion o ran goruchwylio bydwragedd ac yn nodi ei bod yn ofynnol i'r AGLI sicrhau:

- bod gan bob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal oruchwyliwr bydwragedd penodedig.
- o leiaf unwaith y flwyddyn, bod pob goruchwyliwr bydwragedd yn cyfarfod gyda phob bydwraig y mae'n oruchwyliwr bydwragedd penodedig arnynt i adolygu arfer y fydwraig a nodi ei hanghenion o ran hyfforddiant.
- bod yr holl oruchwylwyr bydwragedd yn ei ardal yn cadw cofnodion o'u gweithgareddau goruchwylio, gan gynnwys unrhyw gyfarfod gyda bydwraig.
- bod goruchwyliwr bydwragedd ar gael 24 awr y dydd ar gyfer pob bydwraig sy'n ymarfer yn ei ardal.

2.3.2 Neilltuir Goruchwyliwr Bydwragedd penodedig i bob bydwraig ar ddechrau ei chyfnod o gyflogaeth. Mewn egwyddor, bydd bydwragedd yn gallu dewis eu Goruchwyliwr Bydwragedd penodedig ond yn ymarferol cânt eu neilltuo i'r un sydd

â'r llwyth gwaith lleiaf i ddechrau. Os yw bydwraig yn hunangyflogedig, bydd yr AGLl fel arfer yn gofyn i Oruchwyliwr Bydwragedd sy'n byw a/neu'n gweithio yn ymyl safle'r fydwraig, neu sy'n gallu teithio i'r safle, gynnwys y fydwraig hunangyflogedig yn ei lwyth gwaith goruchwylio. Hysbysir yr holl fydwragedd a'r Goruchwylwyr Bydwragedd eu bod yn cael gofyn am newid eu goruchwyliwr bydwragedd neu fydwraig os nad yw'r berthynas yn addas i'r naill neu'r llall yn unol â Rheol 12, Nodyn Canllaw 6 o Reolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2004).

2.3.3 Yn ystod 2012-13, parhaodd yr AGLl i fonitro cronfeydd data'r AGLl yn chwarterol i sicrhau bod gan bob bydwraig yng Nghymru Oruchwyliwr Bydwragedd penodedig. Rydym yn gallu nodi y bu gan bob bydwraig sy'n ymarfer yng Nghymru Oruchwyliwr Bydwragedd penodedig yn ystod 2012-13. Mae'r AGLl yn defnyddio'r gronfa ddata i fonitro safonau, sicrhau bod gan bob bydwraig Oruchwyliwr Bydwragedd wedi ei neilltuo ar ei chyfer a bod adolygiadau blynyddol wedi eu cynnal. Hefyd, mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl yn mynychu cymaint o gyfarfodydd arferol y Goruchwylwyr Bydwragedd â phosibl. Mae hyn yn rhoi cyfle i Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl gynnig cyngor a chymorth ychwanegol i Oruchwylwyr Bydwragedd ar faterion ynglŷn â'r gwasanaeth a allai fod yn berthnasol i ddiogelwch y cyhoedd. Mae hefyd yn eu galluogi i arsylwi sut y mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynllunio a gweithredu eu cynlluniau gwaith blynyddol.

2.3.4 Mae gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â chysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd wedi ei nodi yng Nghanllawiau Cenedlaethol yr AGLl a chanllawiau lleol yr AGLl sydd ar gael drwy wefan AGIC http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgId=477&pid=14742 a Fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth y DU, ewch i www.lsamoforumuk.scot.nhs.uk/guidelines

2.3.5 Anogir bydwragedd i fod yn rhagweithiol o ran trefnu eu hadolygiad goruchwylio blynyddol gyda'u Goruchwyliwr Bydwragedd penodedig. Mae'r arian a ddarperir gan yr AGLl yn parhau i gefnogi'r broses flynyddol o adolygu goruchwyliaeth trwy dalu am staff i gyflenwi yn swyddi gwreiddiol y Goruchwylwyr Bydwragedd pan fyddant yn cynnal adolygiadau unigol.

2.3.6 Amlygwyd pryderon, wrth ddadansoddi cronfa ddata'r AGLl, ynglŷn â phrydlondeb adolygiadau blynyddol. Ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, dim ond 83% o'r bydwragedd yng Nghymru a oedd wedi derbyn Adolygiad Goruchwyliaeth Blynyddol, a hwnnw wedi ei lanlwytho i gronfa ddata'r AGLl. Roedd rhai byrddau Iechyd yn cyflwyno ffigurau mor isel â 74%. Mae llawer o resymau wedi eu rhoi am ffigyrau gwael o'r fath ac maent i gyd yn amlygu cynllunio gwael a dim digon o amser wedi ei neilltuo i adolygiadau o'r fath. Mae Adroddiad Francis[8] yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn derbyn adolygiad blynyddol o'u perfformiad ac felly rhaid i bob Goruchwyliwr Bydwragedd a phob bydwraig gydnabod pwysigrwydd cydymffurfio â gofyniad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i gynnal Adolygiad Goruchwyliaeth Blynyddol ac ymrwymo i wneud hynny. Sefydlodd yr AGLl grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Hydref 2012 i adolygu dogfennau cyfredol yr Adolygiad Goruchwyliaeth Blynyddol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben, yn cefnogi dull cyson trwy Gymru gyfan ac yn hysbysu'r adolygiadau perfformiad unigol a gynhelir gan reolwyr yn well. Disgwylir i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyflwyno adroddiad ym mis Awst 2013.

2.3.7 Cadarnhaodd y dystiolaeth hunanasesu a gyflwynwyd ar gyfer archwiliad yr AGLl yn 2012-13 fod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion goruchwylio sy'n darparu tystiolaeth o'u gweithgareddau goruchwylio. Roedd ffeiliau goruchwylio wedi eu sefydlu ac roeddynt yn cynnwys copi o fwriad y fydwraig i ymarfer yn ogystal â manylion y cyfarfodydd goruchwylio ac unrhyw gyswllt. Roedd yr holl ffeiliau'n cael eu cadw'n ddiogel ac roeddynt ar wahân i'r ffeiliau personél, fel sy'n ofynnol dan safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Yn gynyddol, mae cofnodion sy'n berthnasol i fydwragedd sy'n gwneud gwaith cefnogi datblygiad neu ymarfer dan oruchwyliaeth yn cael eu lanlwytho i gronfa ddata'r AGLl i osgoi dyblygu cofnodion papur ac electronig.

2.3.8 Mae gan bob darparwr gwasanaethau bydwreigiaeth yng Nghymru rota o Oruchwylwyr Bydwragedd sydd ar alwad 24 awr y dydd ac y gellid cysylltu â nhw mewn argyfwng. Hysbysir pob bydwraig am leoliad y rota a sut i fynd ato. Y drefn

[8] Ymchwiliad Francis (2013) Report of the Mid Staffordshire NHS Foundation Trust Public Enquiry. Llundain: Y Llyfrfa.

arferol yw cadw copi ym mhob adran/man o'r uned famolaeth/swyddfa gymunedol yn ogystal â rhoi copi o'r rota i switsfwrdd yr ysbyty/uned. Cedwir cofnodion o bob achlysur pan ofynnir am gyngor gan Oruchwyliwr Bydwragedd, gan gynnwys dyddiad, amser, manylion y broblem a'r cyngor a roddwyd. Roedd yr archwiliadau a gynhaliwyd gan Fyrddau Iechyd Cwm Taf a Phrifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn amlygu bod 100% o'r bydwragedd yn gwybod sut i gysylltu â'u Goruchwyliwr Bydwragedd penodedig a'r Goruchwyliwr Bydwragedd sydd ar alwad 24 awr y dydd. Nododd pob bwrdd iechyd arall brofiadau cadarnhaol tebyg.

### Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt, Goruchwylwyr Bydwragedd Cydlynu a chymorth gweinyddol

2.3.9 Mae pob darparwr gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru wedi penodi *'Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt'* sy'n cael ei ethol gan ei gymheiriaid. Swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt yw gweithredu i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth rhwng yr AGLI, y Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Goruchwylwyr Bydwragedd ym mhob bwrdd iechyd. Bydd Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt yn cydgysylltu'r adroddiad blynyddol gan y bwrdd iechyd i'r AGLI a hefyd yr adroddiadau chwarterol sy'n rhoi manylion ynglŷn â sut y mae'r arian a ddyrannwyd gan yr AGLI wedi ei wario i gefnogi goruchwyliaeth statudol bydwragedd. Disgwylir i'r swyddogaeth hon gael ei throsglwyddo ar ôl cyfnod y cytunir arno'n lleol i sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn cael cyfle i gyflawni'r swyddogaeth. Yn ystod 2012-2013, daeth unigolyn newydd i swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt ym mhedwar o'r saith o dimau Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae'r sgiliau a'r cymwyseddau y mae'n ofynnol i Oruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt eu cael bellach wedi eu cynnwys yn yr offeryn cymwyseddau, sy'n galluogi pob Goruchwyliwr Bydwragedd i gynllunio ar gyfer ei anghenion datblygu yn y dyfodol er mwyn paratoi ar gyfer cyflawni swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt.

2.3.10 Mae'r AGLI yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda'r Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt ac yn talu am eu hamser a'u costau teithio a chynhaliaeth er mwyn iddynt fod yn bresennol. Roedd yr agenda yn y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu ymhellach ddull ar gyfer Cymru gyfan o fodloni'r safonau ar gyfer goruchwyliaeth statudol bydwragedd ac ar gyfer ymarfer Goruchwylwyr

Bydwragedd; rhannu arbenigedd ac enghreifftiau o arfer da; ac annog gweithio ar y cyd.

2.3.11 Drwy fforwm y Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt, mae Goruchwylwyr Bydwragedd o bob rhan o Gymru wedi gallu cyfarfod yn rheolaidd i gyfnewid syniadau, dysgu oddi wrth ei gilydd a gweithio gyda'i gilydd ar fentrau sy'n ymwneud ag ymarfer gwaith a/neu oruchwyliaeth statudol bydwragedd. Anogir Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt gan yr AGLI i ddod â Goruchwyliwr Bydwragedd neu fyfyriwr gyda nhw fel gwestai i'r cyfarfodydd er mwyn hwyluso tryloywder a dull gweithio agored, gwella gwybodaeth am waith yr AGLI ac annog y broses o gynllunio ar gyfer olyniaeth yn swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt.

2.3.12 Mae gan bob darparwr gwasanaethau mamolaeth *'Oruchwyliwr Bydwragedd Cydlynu'* hefyd sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i fydwragedd hunangyflogedig i sicrhau bod cyngor, polisïau a gwybodaeth ar gael iddynt yn lleol. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Cydlynu hefyd ar gael ar gyfer y bydwragedd hynny sydd o bosibl yn gweithio ar draws y ffin rhwng Cymru/Lloegr. Yn adroddiad y llynedd, nododd yr AGLI bod angen cynnal fforwm, o bosibl, ar gyfer bydwragedd hunangyflogedig a phobl sy'n bresennol mewn genedigaeth nad ydynt wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. O ystyried y gwaith parhaus ynglŷn â datblygiad model goruchwyliaeth i Gymru yn y dyfodol, mae'r cam hwn wedi ei ohirio tan 2013-14.

2.3.13 Symudodd y rhan fwyaf o'r timau Goruchwylwyr Bydwragedd ymlaen yn ystod y flwyddyn o ran sicrhau gwell cymorth gweinyddol, gan ddefnyddio cyllid gan AGLI i ariannu'r swyddi hyn. Er hyn, mae angen mwy o adnoddau gweinyddol i gynorthwyo â'r dyletswyddau clerigol cyffredinol sy'n cefnogi effeithiolrwydd goruchwyliaeth:

- Cynnal cronfa ddata'r AGLI drwy gydweithio gyda'r Goruchwylwyr Bydwragedd.
- Cynorthwyo â'r broses o reoli'r gyllideb a pharatoi adroddiadau ariannol chwarterol.

- Casglu data ar gyfer yr adroddiad blynyddol a chynorthwyo'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt i baratoi'r adroddiad lleol ynglŷn â Goruchwyliaeth Bydwragedd.
- Gwneud trefniadau Oruchwylwyr Bydwragedd fynd i gynadleddau a digwyddiadau.
- Paratoi gwybodaeth ac adroddiadau archwilio.
- Gweinyddu'r prosesau ar gyfer hysbysu'r AGLI am ddigwyddiadau a chefnogi ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd.
- Darparu ysgrifennydd ar gyfer cyfarfoddydd y Goruchwylwyr Bydwragedd; anfon copiau o'r agenda, cadw cofnodion a chynnal cardiau gweithredu.

### Proses archwilio flynyddol yr AGLI

2.3.14 Cafodd y broses archwilio flynyddol, a gyflwynwyd yn 2011-2012, ei gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn trwy ehangu'r tim archwilio a chynnwys adolygwyr lleyg AGLI. Trwy gynnwys adolygwyr lleyg gellid sicrhau bod pwyslais eglur ar safbwynt y defnyddiwr yn unol â Rheol 7[9] y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) sy'n argymell y dylid cynnwys menywod sy'n defnyddio gwasanaethau bydwragedd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd goruchwyliaeth.

2.3.15 Hefyd, daeth adolygiad gan gymheiriaid yn rhan o'r broses archwilio trwy gynnwys Goruchwylwyr Bydwragedd a myfyrwyr o'r cwrs paratoi i fod yn Oruchwyliwr Bydwragedd yn y timau archwilio. Roedd darparwyr gwasanaethau mamolaeth yn croesawu dull gwaith tim adolygu'r AGLI ac roedd yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau ledled Cymru.

2.3.17 Adolygodd yr AGLI ganfyddiadau archwiliadau 2011-12 a nodwyd naw safon lle yr oedd angen datblygiad ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd. Roeddynt yn cynnwys archwilio safbwyntiau a phrofiadau bydwragedd o oruchwyliaeth, y cysylltiad rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol a'r broses i Oruchwylwyr Bydwragedd hysbysu'r bwrdd am eu pryderon pan fyddant o'r farn y gallai adnoddau annigonnol effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd. Roedd proses archwilio 2012-13

[9] Mae Rheol 7 o Reolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) yn berthnasol i safonau'r AGLI a Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI.

felly'n rhoi blaenoriaeth i ganolbwyntio ar y naw safon hynny.  Mae'r archwiliad a gyhoeddwyd ar gyfer pob sefydliad yn darparu tystiolaeth o'r hyn a gyflawnwyd. Er hynny, gwelwyd wrth ddadansoddi'r rhain bod:

- Angen mwy o welliant o ran y cyswllt rhwng goruchwyliaeth a threfniadau llywodraethu'r sefydliad.
- Angen cynnal arolwg o safbwyntiau bydwragedd am oruchwyliaeth yn amlach a bod angen i'r AGLI sicrhau y gweithredir ar eu sylwadau.
- Angen mwy o gysoni a gwaith ar y cyd rhwng rheolwyr a goruchwylwyr mewn prosesau ymchwilio pan fo digwyddiadau anffafriol difrifol
- Angen gwella safonau o ran cadw cofnodion, a rhannu'r gwersi a ddysgwyd yn well.

## 2.4 Rhannu arfer nodedig

2.4.1 Yn ystod y flwyddyn, nodwyd llawer o enghreifftiau o arferion ac achosion a oedd yn dangos y swyddogaeth bwysig a gyflawnir gan oruchwyliaeth statudol.  Rhannwyd y rhain gyda rhanddeiliad yn rheolaidd drwy gylchlythyr chwarterol yr AGLI.  Mae cylchlythyron 2012-13 ar gael yn http://www.hiw.org.uk/page.cfm?orgid=477&pid=13891.

2.4.2 Dyma enghreifftiau o ymarfer a gasglwyd o archwiliadau blynyddol yr AGLI ac adroddiadau Goruchwylwyr Bydwragedd lleol, ac sy'n werth eu rhannu:

- Rhoddir llyfr adnoddau o'r enw '*Supervision in ABMU health board*' i weithwyr newydd*.*  Mae'n rhoi gwybodaeth berthnasol ynglŷn â Goruchwylwyr Bydwragedd a goruchwyliaeth a gwybodaeth allweddol arall i gefnogi bydwragedd.
- Lluniodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan gymorth cof o'r enw, *'Message in a Bottle'* i atgoffa bydwragedd am bwysigrwydd cynnal profion wrin ar adeg pob ymweliad cyn geni.  Tyfodd hwn yn gyflym yn *'ddeg uchaf'* o deitlau caneuon enwog y gellid eu defnyddio fel cymorth i'r cof ar gyfer arferion bydwreigiaeth hanfodol eraill.

- Datblygodd Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr siarter tîm sy’n nodi cyfrifoldebau ac amcanion y tim Goruchwylwyr Bydwragedd ac yn pwysleisio’r swyddogaeth bwysig y maent yn ei chyflawni o ran arwain newid trwy gyfathrebu effeithiol a thrwy fod yn amlwg i fenywod a bydwragedd.
- Aeth tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Cwm Taf i ddiwrnod arweinyddiaeth a datblygiad i gryfhau dynameg y tîm a datblygu swyddogaeth a phroffil y Goruchwylwyr Bydwragedd ymhellach fel arweinwyr yn y Bwrdd Iechyd. Cynhaliwyd y diwrnod gan dîm gweithlu a datblygiad y Bwrdd Iechyd ac roedd y Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Nyrsio yn bresennol.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Caerdydd a’r Fro wedi cyflwyno gwybodaeth unwaith y mis i Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlygu materion ansawdd a diogelwch a nodwyd yn ystod y mis blaenorol fel rhan o weithgareddau’r Goruchwylwyr Bydwragedd. Cynhyrchir y wybodaeth am ddiogelwch ar ffurf poster a’i gyflwyno bob mis i’r bydwragedd sy’n cael eu goruchwylio a’i arddangos ym mhob man clinigol.
- Datblygodd Goruchwylwyr Bydwragedd Hywel Dda adnodd dysgu electronig i gynorthwyo bydwragedd i gael gafael ar wybodaeth allweddol er enghraifft canllawiau Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a’r Gynecolegwyr a NICE. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i You Tube er mwyn i fydwragedd allu gwylio fideos sgiliau argyfwng.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys wedi lansio cardiau post *‘Sylwadau am Oruchwyliaeth’*. Mae bydwragedd yn gallu ysgrifennu eu sylwadau ar Gerdyn gwyrdd os oes rhywbeth da iawn wedi digwydd o ganlyniad i oruchwyliaeth, rhywbeth y byddent am ei weld yn digwydd eto, Melyn os oes rhywbeth y mae’r fydwraig am iddo gael ei wella a Choch os yw’r fydwraig o’r farn bod rhywbeth wedi digwydd sy’n gwbl annerbynniol.

**Yn ystod 2013-14 bydd yr AGLI yn:**

- Gweithredu ffurflen Adolygiad Goruchwyliaeth Blynyddol Cymru Gyfan, sydd yn mynd i'r cyfnod treialu ar hyn o bryd, er mwyn darparu templed cyson ledled Cymru.
- Gweithredu'r ddalen weithgareddau ar gronfa ddata'r AGLI i gysylltu â'r adroddiad eithrio ar amser a ddiogelir i nodi'r union amser y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gyflawni eu swyddogaeth.
- Gweithredu'r dull Ymweld Pyramid, sy'n cael ei gyflwyno'n rhan o'r llif gwaith trawsnewid gofal, fel fframwaith ar gyfer clinigau gwrando chwarterol Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI.
- Adolygu'r broses bresennol ar gyfer archwilio safbwyntiau a phrofiadau'r bydwragedd o oruchwyliaeth, er mwyn cael adborth gwerthfawr i ddatblygu goruchwyliaeth ymhellach.

## 2.5 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn goruchwyliaeth

2.5.1 Mae'r AGLI yn cynnwys adolygwyr lleyg ym mhob agwedd ar ei waith. Mae adolygwyr lleyg wedi bod yn rhan annatod o waith a swyddogaeth yr AGLI ers 2008.

2.5.2 Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae adolygwyr lleyg yn allweddol i broses archwilio'r AGLI gan eu bod yn gyfrifol am ofyn am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth mamolaeth ac asesu eu hymwybyddiaeth am oruchwyliaeth. Mae adolygwyr lleyg hefyd yn arwain trafodaethau gyda Chadeiryddion Pwyllgorau Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth ac arweinwyr timau profiad y claf. Yn ystod y flwyddyn bu adolygwyr lleyg hefyd yn rhan o'r '*clinigau gwrando*' a gynhaliwyd gan yr AGLI ym mhob bwrdd iechyd, gan roi cyfle iddynt gyfarfod ag amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr gwasanaeth.

2.5.3 Mae un o adolygwyr lleyg yr AGLI yn gyd-Gadeirydd grŵp gweithredu Strategaeth Mamolaeth Cymru Gyfan ar hyn o bryd a chafwyd cyflwyniad ganddi yng

nghynhadledd genedlaethol Coleg Brenhinol y Bydwragedd ym mis Tachwedd 2012 ynglŷn â gwerth swyddogaeth adolygwr lleyg yr AGLI.

2.5.4 Mae'r adolygwyr lleyg yn rhan annatod o'r broses recriwtio ar gyfer y cwrs paratoi i Oruchwylwyr Bydwragedd. Maent yn canolbwyntio ar asesu agwedd yr ymgeisydd tuag at ddewisiadau menywod a gofal wedi'i deilwra i'r unigolyn. Mae eu cyfraniad yn werthfawr iawn wrth nodi bydwragedd sy'n gallu gweithio'n dda gyda menywod a'u teuluoedd.

2.5.5 Roedd y garfan bresennol o adolygwyr lleyg i fod i gwblhau eu cyfnod o bum mlynedd ym mis Gorffennaf 2013. Fodd bynnag, mae contractau'r rhai hynny sy'n dymuno parhau i weithio gyda'r AGLI wedi eu hymestyn am gyfnod byr er mwyn iddynt allu darparu cefnogaeth i'r adolygwyr newydd a fydd yn cael eu recriwtio yn ystod haf 2013.

2.5.6 Roedd archwiliadau'r AGLI, ac adroddiadau blynyddol unigol a baratowyd gan bob bwrdd iechyd ar ddiwedd cyfnod 2012-13, yn cynnwys tystiolaeth bod defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud mwy â goruchwyliaeth – rhywbeth y mae croeso iddo. Yn benodol, cynhaliodd Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Powys gyfarfod adborth ar gyfer yr holl fenywod a oedd wedi geni baban yn ystod y chwe mis blaenorol; a chasglwyd gwybodaeth werthfawr i gynorthwyo i wella'r llwybrau gofal. Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Caerdydd a'r Fro yn arwain datblygiad *'arsylwadau gofal'* a *'straeon cleifion'* sy'n offerynau cydnabyddedig i gasglu profiadau cleifion a chyfranu at welliannau yn y gwasanaeth.

**Yn 2013-14 bydd yr AGLI yn:**

- Cefnogi'r broses o recriwtio, sefydlu a datblygu carfan newydd o adolygwyr lleyg.
- Sicrhau bod mwy o adolygwyr lleyg yn cael eu cynnwys yn y timau archwilio.
- Parhau i sicrhau bod adolygwyr lleyg yn mynd i fforymau defnyddwyr a chlinigau gwrando Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI.

## 2.6 Ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch

2.6.1 Mae pedwar sefydliad addysg uwch yng Nghymru, pob un ohonynt yn darparu addysg bydwreigiaeth cyn ac ar ôl cofrestru. Mae gan bob sefydliad o leiaf un darlithydd bydwreigiaeth sydd hefyd yn Oruchwyliwr Bydwragedd a benodwyd gan yr AGLI. Yn ystod y flwyddyn roedd Goruchwylwyr Bydwragedd yn addysgu ac asesu myfyrwyr bydwreigiaeth ym mhob Sefydliad Addysg Uwch. Cynigiwyd nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr brofi goruchwyliaeth ar waith, ac roedd profiadau o'r fath yn cynnwys myfyrwyr yn cysgodi eu mentor yn y drydedd flwyddyn pan yr oedd hi'n cyfarfod â'i Goruchwyliwr Bydwragedd ar gyfer trafodaeth goruchwyliaeth.

2.6.2 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, roedd Goruchwylwyr Bydwragedd yn aelodau o'r panel cyfweld ar gyfer dethol darpar fyfyrwyr bydwreigiaeth. Gweithiodd Goruchwylwyr Bydwragedd â chydweithwyr ym maes addysg ar y broses Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol[10] i sicrhau bod myfyrwyr bydwreigiaeth yn gymwys ac yn hyderus i weithio fel bydwraig cyn iddynt gwblhau eu cymhwyster.

2.6.3 Cyfarfu Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI â nifer o fyfyrwyr bydwreigiaeth fel rhan o broses flynyddol archwilio goruchwyliaeth, yn ogystal â chyfrannu at sesiynau addysgu a siarad mewn cynhadleddau a gynhaliwyd gan ddau o'r Sefydliadau Addysg Uwch yn ystod y flwyddyn. Roedd ymgysylltiad o'r fath â myfyrwyr yn gyfle i wella dealltwriaeth y myfyrwyr o swyddogaeth yr AGLI a Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI, a hybu swyddogaeth goruchwylio ymhellach.

2.6.4 Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bu Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhan weithredol o ddarparu hyfforddiant i fydwragedd a myfyrwyr bydwreigiaeth. Parhaodd Goruchwylwyr Bydwreigiaeth i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr addysg perthnasol, gan gefnogi sesiynau hyfforddi, er enghraifft, ar gyfer bydwragedd nad oeddent wedi bod yn gweithio fel bydwraig glinigol am gyfnod o amser, i'w cynorthwyo i fod yn hyderus, yn ogystal ag yn gymwys, wrth ailddechrau gweithio.

[10] Mae Archwiliad Clinigol Strwythuredig Gwrthrychol yn cynnwys cyfres o archwiliadau byr (5–10 munud fel arfer ond mae rhai yn defnyddio hyd at 15 munud), pan fydd pob ymgeisydd yn cael ei arholi yn unigol gan arholwr gyda sefyllfaoedd clinigol / cleifion go iawn neu ffug.

2.6.5 Parhaodd y grŵp Penaethiaid Addysg Bydwreigiaeth i gyfarfod yn chwarterol a gwahoddwyd yr AGLl i arsylwi. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gwahoddodd yr AGLl gynrychiolydd o'r grŵp Penaethiaid Addysg Bydwreigiaeth/Arweinwyr Addysg Bydwreigiaeth i fynychu cyfarfodydd yr AGLl/fforwm Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt. Rhannwyd a thrafodwyd materion cyffredinol ynglŷn â'r amgylchedd dysgu clinigol i fyfyrwyr bydwreigiaeth yn y cyfarfodydd hyn. Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn peri pryder yn ystod y flwyddyn ynglŷn â'r amgylchedd dysgu clinigol i fyfyrwyr bydwreigiaeth cyn cofrestru.

2.6.6 Darparwyd y rhaglen paratoi ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd 2012-13 gan Brifysgol Abertawe; yr unig sefydliad sy'n darparu'r rhaglen baratoi yng Nghymru. Cymeradwywyd y rhaglen gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ym mis Ebrill 2012 a chafwyd sylwadau cadarnhaol iawn ynglŷn â'r dull dysgu arloesol seiliedig ar waith a ddatblygwyd ar sail offeryn cymwyseddau'r AGLl. Ers dyfarnu'r contract i Brifysgol Abertawe, mae dau Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl wedi bod yn rhan weithredol o gynllunio'r cwricwlwm ac maent wedi cymryd rhan wrth gyflwyno'r rhaglen.

2.6.7 Yn 2012-2013, roedd gan bob darpar Oruchwyliwr Bydwragedd, a oedd yn dilyn y cwrs paratoi, fentor penodedig yn eu cefnogi drwy gydol y rhaglen. Dan y dull yn seiliedig ar waith roedd yn ofynnol i bob myfyriwr gael profiad ymarferol dros 12 diwrnod ymarfer pan yr oedd y myfyrwyr yn cysgodi ac yn arsylwi eu mentor a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol, gan roi profiad iddynt o'r amrywiaeth lawn o weithgareddau'r Goruchwylwyr Bydwragedd. Roedd llawer o adroddiadau blynyddol 2012-13 y Goruchwylwyr Bydwragedd yn nodi bod timau Goruchwylwyr Bydwragedd yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi'r bydwragedd hynny â *'statws mentor cadarnhau*[11]*'* i gydymffurfio â gofynion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

2.6.8 Dan amgylchiadau lle yr argymhellwyd cyfnod o ymarfer dan oruchwyliaeth ar gyfer bydwraig, roedd Goruchwyliwr Bydwragedd, pan oedd yn briodol, yn gweithio gyda chydweithiwr o addysg bydwreigiaeth, y fydwraig dan sylw a Swyddog

[11] Safonau ar gyfer Addysg Bydwreigiaeth Cyn Cofrestru y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2009).

Bydwreigiaeth yr AGLl, i nodi a chytuno ar amcanion a chanlyniadau dysgu i'w cyflawni.  Roedd rhai o'r rhaglenni ymarfer dan oruchwyliaeth yn defnyddio dull yn seiliedig ar waith ar gyfer yr elfen academaidd.  Bydd y dull hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer Rhaglen Ymarfer yr AGLl sy'n disodli Ymarfer dan Oruchwyliaeth yn y Rheolau Bydwragedd diwygiedig (2012).

**Yn ystod 2013-14 bydd yr AGLl yn:**

- Parhau i gefnogi a datblygu dulliau dysgu seiliedig ar waith i sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad o swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a'r swyddogaeth oruchwylio.
- Parhau i weithio gydag Arweinwyr Addysg Bydwreigiaeth i sicrhau bod darpar fydwragedd yn gallu cael profiad o oruchwyliaeth statudol yn ystod eu hyfforddiant i sicrhau bod eu hymwybyddiaeth ac yna eu hymgysylltiad parhaus yn gadarnhaol ac yn gyson ledled Cymru.

## 2.7 Sicrhau bod polisïau priodol wedi eu sefydlu

2.7.1 Mae'r AGLl yng Nghymru yn cynnal cyfres o ganllawiau sy'n berthnasol i fusnes yr AGLl; mae'r rhain wedi eu hadolygu a'u diweddaru fel sy'n ofynnol ers iddynt gael eu llunio yn 2006.  Mae cyfres o ganllawiau cenedlaethol (DU) hefyd sydd wedi eu cytuno a'u mabwysiadu gan bob AGLl ledled y DU; defnyddir y rhain ochr yn ochr â chanllawiau'r AGLl ar gyfer Cymru.  Ar y cyd, gelwir y rhain yn '*Canllawiau a Safonau Awdurdod Goruchwylio Lleol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Pholisïau a Chanllawiau Cenedlaethol (DU) ar gyfer AGLl*' ac maent ar gael ar wefan AGIC yn www.hiw.org.uk ac ar y wefan genedlaethol yn: www.lsamoforumuk.scot.uk.  Mae gan bob Goruchwyliwr Bydwragedd yng Nghymru gopi caled o Ganllawiau a Safonau'r AGLl .

2.7.2 Mae'r canllawiau'n cael eu diweddaru ar hyn o bryd gan fforwm Swyddogion Bydwreigiaeth AGLl y DU er mwyn adlewyrchu newidiadau a datblygiadau sydd wedi eu nodi yn Rheolau a Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012).  Mae'r AGLl ar gyfer Cymru wedi cyfrannu at adolygu'r canllawiau cenedlaethol i sicrhau eu bod

yn bodloni unrhyw ofynion sy'n berthnasol i Gymru a darparu prosesau eglur a fframwaith ar gyfer goruchwyliaeth i Oruchwylwyr Bydwragedd. Mae'r canllawiau cyfredol yn parhau i fod ar waith tra bod y camau uchod yn parhau.

2.7.3 Cynhaliwyd adolygiad tair blynedd AGLI Cymru gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystod 2012 http://www.nmc-uk.org/Nurses-and-midwives/Midwifery-New/NMC-Review-of-LSA-reports/2011-2012/ a nodwyd bod angen i AGIC wella adran yr AGLI ar ei gwefan. Mae'r testun diwygiedig ar gyfer y wefan wedi ei ddrafftio gan Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI ac mae gwaith i ddiweddaru gwefan AGIC wedi ei gynllunio.

**Yn ystod 2013-14 bydd yr AGLI yn:**

- Gweithredu canllawiau wedi eu diweddaru yn unol â Rheolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012) sydd wedi eu diwygio.
- Gwerthuso adran yr AGLI ar wefan AGIC pan fydd y gwaith o ddiweddaru ac ailgynllunio gwefan AGIC wedi ei gwblhau.

## 2.8 Sicrhau y cynhelir ymchwiliadau i arfer sy'n is na'r safon ddelfrydol

2.8.1 Hysbysir yr AGLI yn ffurfiol am ddigwyddiadau anffafriol difrifol pan fo'n bosibl bod ymarfer bydwreigiaeth is na'r safon ddelfrydol wedi cyfrannu at y digwyddiad hwnnw, drwy gronfa ddata genedlaethol yr AGLI. Mae canllawiau ynglŷn â'r math o ddigwyddiad y dylid hysbysu ynglŷn â hwy wedi eu nodi ar *'Restr Sbarduno'r AGLI ar gyfer Hysbysu am Ddigwyddiadau.'* Adolygwyd y rhestr sbarduno yn 2011 gan weithgor a oedd yn cynnwys Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI, Goruchwylwyr Bydwragedd Cyswllt, bydwragedd a Phenaethiaid Bydwreigiaeth. Mae Rhestr Sbarduno Hysbysu am Ddigwyddiad yr AGLI yn sicrhau mai digwyddiadau sy'n berthnasol i swyddogaeth yr AGLI yn unig yr hysbysir ynglŷn â hwy. Ers cyflwyno'r rhestr, mae mwy o gysondeb wedi bod bob blwyddyn yn nifer y digwyddiadau y mae'r saith Bwrdd Iechyd wedi hysbysu ynglŷn â hwy, yn ogystal â pha mor berthnasol yw'r adroddiadau.

2.8.2 Mae pob digwyddiad clinigol difrifol yn destun adolygiad achos. Os yw'r adolygiad achos yn nodi y gallai gweithredoedd unrhyw fydwraig fod wedi cyfrannu, mewn ffordd negyddol, at y digwyddiad clinigol, neu fod ei harfer yn is na'r safon ddelfrydol, bydd Goruchwyliwr Bydwragedd yn cynnal ymchwiliad goruchwylio llawn yn unol â Chanllaw L yr AGLl. Gellid cynnal ymchwiliad goruchwylio hefyd yn sgil archwiliad cofnodion rheolaidd neu drwy'r drefn gwyno.

2.8.3 Hysbyswyd yr AGLl yn ffurfiol am bum deg chwech o ymchwiliadau neu ddigwyddiadau clinigol yn ystod 2012-13 o'i gymharu â 74 y flwyddyn cynt. Wrth archwilio'r rhesymau am ostyngiad o'r fath, nodwyd bod hyn am fod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn deall yn well y mathau o ddigwyddiadau y dylid cyflwyno adroddiad ynglŷn â nhw. Yn unol â'r gofynion ar gyfer hysbysu a nodir ar '*Restr Sbardun Hysbysu am Ddigwyddiad yr AGLl',* yn ystod 2012-13 dim ond ynglŷn ag ymarfer bydwreigiaeth a oedd yn is na'r safon ddelfrydol y derbyniodd yr AGLl hysbysiadau. Mewn blynyddoedd blaenorol, nid oedd nifer o'r digwyddiadau yr hysbyswyd amdanynt, er eu bod yn arwyddocaol, yn berthnasol i gylch gwaith yr AGLl gan nad oeddynt yn berthnasol i ymarfer bydwreigiaeth a oedd yn is na'r safon ddelfrydol. Roedd 37 o'r 56 o ddigwyddiadau yr hysbyswyd yr AGLl amdanynt yn destun ymchwiliad gan Oruchwyliwr Bydwragedd, yn unol â Chanllaw L AGLl y DU.

2.8.4 Gweithiodd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl yn agos gyda Phenaethiaid Bydwreigiaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd ledled Cymru i sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu cymryd ar ôl digwyddiad clinigol. Cafodd y Goruchwylwyr Bydwragedd gyngor ac arweiniad gan un o Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl wrth gynnal ymchwiliad goruchwylio, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Goruchwylwyr Bydwragedd unigol i adolygu ymchwiliad yn ôl yr angen.

2.8.5 Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i deimlo'i bod yn her cynnal ymchwiliad o fewn 20 diwrnod gwaith, fel y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ei argymell, neu hyd yn oed yn brydlon yn unol â gofynion y Rheolau Bydwragedd diwygiedig (2012). Mewn gwirionedd, o'r 37 o ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd, dim ond wyth a gwblhawyd o fewn chwech i wyth

wythnos.  Cwblhawyd y gweddill o fewn tri i 12 mis a phum mis oedd yr amser cyfartalog ar gyfer cwblhau ymchwiliad.  Mae hyn yn amlwg yn annerbynniol gan ei fod yn achosi oedi o ran gwella ymarfer y bydwragedd dan sylw, yn arbed gwersi rhag cael eu dysgu ar y cyfle cynharaf yn ogystal â gadael yr AGLl a'r byrddau iechyd yn agored i her.

2.8.6 Yn 2012-13 argymhellwyd cyfnod o ymarfer dan oruchwyliaeth i saith o fydwragedd.  Cwblhaodd tair o'r saith hynny y rhaglen o ymarfer dan oruchwyliaeth a argymhellwyd ar eu cyfer yn llwyddiannus yn ystod blwyddyn yr adroddiad a chwblhaodd dwy arall eu rhaglenni ym mis Ebrill 2013.  Mae dwy fydwraig arall wedi bod ar gyfnodau hir o absenoldeb oherwydd salwch ac nid ydynt wedi dechrau eu rhaglenni gwella. Cynhelir y rhain ar ffurf rhaglen ymarfer yr AGLl bellach, pan fyddant yn dychwelyd i'w gwaith.  Argymhellwyd cyfnod o gymorth datblygiadol i 17 bydwraig arall, sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol pan yr oedd angen y cymorth hwnnw ar 22 o fydwragedd.

2.8.7 Mae rhaglenni ymarfer dan oruchwyliaeth yn cael eu llunio i ymdrin ag anghenion dysgu unigol y fydwraig ac maent yn cael eu trefnu yn unol â'r safonau ar gyfer Ymarfer dan Oruchwyliaeth (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2007).  O 1 Ionawr 2013, trefnir rhaglenni ymarfer yr AGLl yn unol â Rheol 10 o Reolau a Safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012).  Os oes angen, ac os yw pawb dan sylw'n cytuno, gellir dilyn rhaglenni ymarfer dan oruchwyliaeth neu raglenni ymarfer yr AGLl mewn bwrdd iechyd cyfagos.  Mae'r AGLl yn darparu cyllid o £750 i gefnogi pob rhaglen ymarfer dan oruchwyliaeth.

2.8.8 Yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, cafodd dwy fydwraig eu hatal rhag gweithio dros dro gan yr AGLl ac fe'u cyfeiriwyd at y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ganlyniad i ddiffygion sylweddol yn eu haddasrwydd i ymarfer.


2.8.9 Nid atgyfeiriwyd unrhyw faterion i Bwyllgor Iechyd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn.

2.8.10 Dros y deuddeg mis diwethaf mae athroniaeth goruchwyliaeth rhagweithiol wedi ei hymwreiddio, ac mae mwy o dystiolaeth yn dangos bod Goruchwylwyr

Bydwragedd yn gweithio'n fwy rhagweithiol ar lefel adolygiad achos a chyfarfodydd amlddisgyblaethol i ymdrin â diffygion mewn ymarfer bydwreigiaeth cyn iddynt achosi problemau ymarfer difrifol pan fo'n ofynnol cynnal ymchwiliad ffurfiol.

2.8.11 Mae'r materion gododd yn ystod 2012-13, a arweiniodd at gyfnod o ymarfer dan oruchwyliaeth neu gymorth datblygiadol wedi eu crynhoi yn Ffigur 1. Bydd yr AGLI yn parhau i weithio gyda Goruchwylwyr Bydwragedd i nodi ffyrdd o wella ymarfer bydwreigiaeth a nodi ymarfer sy'n is na'r safon ddelfrydol cyn iddo arwain at ddigwyddiad difrifol.

### Ffigur 1: Tueddiadau a themâu yn arwain at ymarfer dan oruchwyliaeth / cymorth datblygiadol




2.8.12 Mae Goruchwylwyr Bydwragedd wedi defnyddio'r themâu sy'n codi o'r digwyddiadau wrth baratoi sesiynau addysgu a hyfforddi a ddarparwyd yn 2012-13. Mae digwyddiadau a sesiynau o'r fath wedi cynnwys hyfforddiant ynglŷn â'r canlynol:

- Y defnydd o Gofnodion Cyn Geni Cymru gyfan.
- Y defnydd o SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Asesiad ac Argymhelliad) fel offeryn cyfathrebu.
- Cadw cofnodion.
- Nodi baban y mae ei dwf wedi ei arafu yn y groth.

2.8.13 Mae'r AGLI yn parhau i nodi tueddiadau o ddigwyddiadau yng nghylchlythyr yr AGLI. Yn ystod 2012-13, cyfrannodd Goruchwylwyr Bydwragedd a Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI at adolygiad o'r llwybr esgor naturiol, datblygiad y Bwndel 'Sepsis Six' a'r cardiotocograff (CTG)[12] pecynnau dysgu ac asesu ar gyfer Monitro ffetws yn electronig[13] Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynecolegwyr/Coleg Brenhinol y Nyrsys gyda'r nod o sicrhau bod unrhyw bwyntiau dysgu a nodwyd o ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi'n gywir.

2.8.14 Roedd adroddiadau blynyddol lleol yr AGLI yn nodi bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn datblygu sawl menter gyda'r nod o ymdrin â'r materion a amlygir gan ddigwyddiadau. Maent yn cynnwys:

- Bwrdd Iechyd Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cefnogi Goruchwylwyr Bydwragedd i ddilyn cwrs *'Train the Trainer'* gyda Choleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynecolegwyr i'w galluogi i ddarparu Hyfforddiant Amlddisgyblaethol Obstetreg Ymarferol (PROMPT).
- Gan adeiladu ar lwyddiant diwrnodau astudio a gynhaliwyd yn 2011-12 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, mae Goruchwylwyr Bydwragedd mewn sawl bwrdd iechyd wedi cynnal diwrnodau astudio Atgyweirio'r Perinëwm a gyflwynwyd gan yr Athro Chris Kettle. Maent hefyd yn defnyddio adnodd hyfforddi ar-lein i wella sgiliau bydwreigiaeth.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ledled Cymru wedi hwyluso digwyddiadau dysgu ar gyfer dehongli CTG, Asesu Twf yn y Groth a defnyddio cofnodion symudol Cymru gyfan.
- Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru a Choleg Brenhinol y Bydwragedd wedi darparu gweithdai cadw cofnodion i gynorthwyo i wella safon cadw cofnodion, gyda phwyslais arbennig ar y cofnodion ar gyfer menywod cymhleth sy'n dewis geni yn y cartref pan fo angen i'r cynlluniau fod yn fanwl ac wedi eu trefnu'n dda.

---

[12] Mae cardiotocograff yn monitor curiad calon y ffetws a chyfangiadau'r groth yn ystod beichiogrwydd.
[13] http://www.e-lfh.org.uk/projects/electronic-fetal-monitoring/

- Derbyniodd Goruchwyliwr Bydwragedd o Fwrdd Iechyd Hywel Dda wobr Bydwraig y Flwyddyn gan Goleg Brenhinol y Nyrsys am ei gwaith o ddarparu rhaglenni addysg a hyfforddiant i bediatryddion, bydwragedd a gweithwyr cymorth gofal iechyd ynglŷn â Chynnal Bywyd Babanod Newydd-anedig.


**Yn ystod 2012-13 bydd yr AGLI yn:**

- Parhau i ddarparu gweithdai ymchwilio i Oruchwylwyr Bydwragedd yn lleol gyda phwyslais ar gau'r ddolen rhwng ymchwiliad a Rheol 10 o safonau Bydwragedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Parhau i archwilio profiad y Goruchwyliwr Bydwragedd a'r fydwraig o'r broses ymchwilio i fesur pa mor effeithiol yw'r hyfforddiant ymchwilio parhaus.
- Monitro tueddiadau o ran dehongli CTG i fesur pa mor effeithiol yw'r offeryn asesu cymwyseddau Monitro Ffetws yn electronig.
- Parhau i ddefnyddio tueddiadau a themâu o ddigwyddiadau ac ymchwiliadau wrth baratoi cynlluniau addysg yr AGLI ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## Pennod 3: Targedu ein gwaith at yr hyn sydd bwysicaf a sbarduno gwelliant

3.1 Mae pob bwrdd iechyd yn hysbysu'r AGLI am wybodaeth yn ymwneud ag ystadegau mamolaeth trwy'r broses o baratoi adroddiad blynyddol. Mae Ffigur 2 yn dangos cyfanswm y genedigaethau fesul sefydliad GIG dros y tair blynedd ddiwethaf fel yr hysbyswyd gan y GIG, ac mae nifer y genedigaethau wedi gostwng ychydig ym mlwyddyn yr adroddiad hwn. Crynhoir ystadegau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 ar ôl y dyddiad gofynnol ar gyfer cyhoeddi Adroddiad Blynyddol yr AGLI i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Bydd ystadegau swyddogol y llywodraeth yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach yn www.wales.gov.uk/statistics.

### Ffigur 2




## Cymarebau bydwragedd a genedigaethau

3.2 Nodir y tueddiad tair blynedd o ran cymarebau bydwragedd cyfwerth ag amser cyflawn i enedigaethau ledled Cymru yn Nhabl 4. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, gweithiodd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI gyda thimau cynllunio'r

gweithlu ledled Cymru yn 2012-13 i hybu'r defnydd o '*Birthrate Plus'* (BRP), sef dull cydnabyddedig a ddefnyddir i gyfrifo niferoedd bydwragedd ar gyfer gwasanaethau unigol yn seiliedig ar sawl ffactor, gan gynnwys lefelau cymhlethdod a'r cyfraddau genedigaeth. Mae pob darparwr gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru wedi cynnal asesiad BRP yn ystod 2011 ac mae nifer wedi bod yn sefydlu cynlluniau gweithredu sydd wedi eu galluogi i ddod yn agos iawn at y gymhareb BRP a argymhellir. Mae'r byrddau iechyd hynny nad ydynt yn bodloni'r BRP wedi darparu cynlluniau unigol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

3.3 1:28 yw'r gymhareb bydwragedd cyfwerth ag amser cyflawn i enedigaethau a argymhellir gan BRP, sy'n ffigur a gefnogir gan Goleg Brenhinol y Bydwragedd. Mae'n galonogol nodi bod niferoedd bydwragedd cyfwerth ag amser cyflawn mewn gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn gymharol agos at y gymhareb a argymhellir gan BRP, ac eithrio Powys. Mae Bwrdd Iechyd Powys yn ddarparwr unigryw o'r safbwynt nad oes ganddo Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ac felly mae canran fawr o fenywod Powys yn derbyn eu gofal yn ystod yr enedigaeth mewn ysbytai y tu allan i'r sir, sy'n esbonio'r gwahaniaeth o ran y gymhareb.

**Tabl 4:**


| Bwrdd Iechyd: | 2010-2011 | 2011-2012 | 2012-13 |
|---|---:|---:|---:|
| Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 1:31 | 1:32 | 1:28 |
| Aneurin Bevan | 1:29 | 1:27 | 1:25 |
| Prifysgol Betsi Cadwaladr | 1:30 | 1:27 | 1:27 |
| Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 1:30 | 1:31 | 1:29 |
| Cwm Taf | 1:26 | 1:26 | 1:25 |
| Hywel Dda | 1:26 | 1:25 | 1:27 |
| Powys | 1:38 | 1:36 | 1:37 |

3.4 Er nad yw pob gwasanaeth mamolaeth yng Nghymru wedi cyrraedd y safon BRP, mae Penaethiaid Gwasanaethau Bydwreigiaeth yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau a chynnal niferoedd a chymysgedd sgiliau priodol yn unol â'u hasesiadau BRP. Er hynny, mae pwysau ariannu yn golygu bod hon yn frwydr barhaus. Mae

BRP wedi nodi mai 90:10 yw'r gymhareb orau o aelodau staff cymwysedig i aelodau staff cymorth. Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn parhau i fonitro lefelau staffio, a bydd craffu manwl ar gymarebau aelodau staff cymwysedig i aelodau staff cymorth trwy gyfarfodydd chwarterol gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Bydwreigiaeth a thrwy adroddiadau am ddigwyddiadau lle yr ystyrir bod staffio yn berthnasol.

3.5 Mae'r AGLI wedi parhau i nodi tueddiad cyson lle y ceir nifer gynyddol o fydwragedd amser llawn o'i gymharu â rhai rhan-amser dros y tair blynedd ddiwethaf fel y dangosir yn Ffigur 3. Er bod bydwragedd rhan amser yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r gweithlu ac yn cadw bydwragedd profiadol a fyddai fel arall yn ymddeol, mae hyn hefyd yn achosi problemau eraill i'r gwasanaeth a'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae cynnydd yn nifer y bydwragedd a gyflogir yn golygu cynnydd i lwyth gwaith Goruchwylwyr Bydwragedd er mwyn cynnal y gymhareb 1:15 sy'n ofynnol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Ceir her ychwanegol wrth ganiatáu digon o amser i'r holl staff ddilyn cyfloedd datblygu proffesiynol parhaus a'r gofynion hyfforddi gorfodol niferus.

**Ffigur 3: Bydwragedd Amser Llawn /Rhan-amser**




## Genedigaethau yn y cartref a chanolbwyntio ar gynyddu normalrwydd


3.6 Mae bydwragedd ledled Cymru yn parhau i hybu normalrwydd a gweithio i sicrhau y dilynir y '*Llwybr Esgor Naturiol*'. Dros y 18 mis diwethaf, mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl a'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cymryd rhan mewn gwaith i adolygu a diweddaru'r Llwybr Esgor Naturiol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben o hyd. Gweithredwyd llwybr diwygiedig yn 2012-13. Mae strategaeth mamolaeth Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais cryf ar bwysigrwydd *'normaleiddio'* genedigaeth a darparu gofal mor agos â phosibl at gartrefi'r menywod. Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLl a'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi parhau i weithio'n agos i gefnogi gweithrediad Strategaeth Cymru Gyfan a byddant yn parhau i hybu normalrwydd a genedigaethau yn y cartref.

3.7 Mae'r ystadegau sy'n ymwneud â genedigaethau naturiol yn 2012-13, a ddarparwyd i'r AGLl gan ddarparwyr gwasanaethau mamolaeth, yn nodi ffigyrau rhwng 56% a 68% - gweler Ffigur 4. O'r genedigaethau naturiol hyn, mae nifer y genedigaethau yn y cartref yn amrywio o 1.6 % i 7.6%. Mae'n siomedig gweld bod pedwar o'r saith darparwr gwasanaeth yng Nghymru wedi nodi gostyngiad sylweddol yn nifer y genedigaethau yn y cartref yn 2012-13 a dim ond Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro sy'n nodi cynnydd graddol flwyddyn ar ôl blwyddyn – gweler Ffigur 5.

**Ffigur 4:**





**Ffigur 5:**



## Cyfraddau toriadau Cesaraidd

3.8 Mae nifer o Fyrddau Iechyd, dan arweiniad Goruchwylwyr Bydwragedd, wedi bod yn gweithio gyda'r pecyn cymorth ar gyfer lleihau nifer y toriadau Cesaraidd a gynlluniwyd gan Sefydliad y GIG er Arloesi a Gwella yn Lloegr. Nod y pecyn cymorth yw llywio'r gwaith o reoli esgor i sicrhau genedigaeth drwy'r wain gan gyfrannu at leihau nifer yr achosion o doriadau Cesaraidd. Mae'r tueddiadau a gyflwynir yn Ffigur 6 yn dangos bod cyfraddau toriadau cesaraidd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Powys yn is na 25% ac nad ydynt wedi newid rhyw lawer, a bod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi llwyddo i ostwng y cyfraddau dros y cyfnod o dair blynedd. Yn ystod 2012-2013 gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r pum bwrdd iechyd â chyfraddau toriadau cesaraidd o 25% neu uwch roi esboniad am gyfraddau mor uchel a chyflwyno cynllun cyflawni lleol er mwyn gwella.

### Ffigur 6:



3.9 Roedd adroddiadau lleol y Goruchwylwyr Bydwragedd yn nodi rhai o'r mentrau nodedig a ddatblygodd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ystod 2012-13 gyda'r nod o gefnogi normalrwydd a genedigaethau yn y cartref a gostwng cyfraddau toriadau cesaraidd:

- Datblygodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hysbysiad crynhoi misol o'r enw *'How are we doing in January, February'* ac ati sy'n rhoi data i fydwragedd ynglŷn â chyfanswm y genedigaethau naturiol a ddigwyddodd yn y cartref ac mewn unedau dan arweiniad bydwragedd.
- Datblygodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda y ddogfen *'Pathway through normal maternity services – Make every contact count'* sy'n adnodd gwych i fydwragedd ar bob lefel ei ddefnyddio fel cymorth i gofio'r hyn y dylid ei ddarparu i bob menyw feichiog i hybu normalrwydd.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod yn cefnogi bydwragedd i agor ardal benodol dan arweiniad bydwragedd wrth ymyl yr ystafelloedd esgor. Cynigir cyfleusterau geni mewn dŵr yno, ac amgylchedd anffurfiol ar gyfer darparu cymorth yn gynnar yn y broses esgor ac i ryddhau menywod yn uniongyrchol iddo o'r uned ar ôl genedigaeth.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Aneurin Bevan wedi bod yn cynnal sesiynau ymwybyddiaeth i gefnogi genedigaethau mewn dŵr ar ol cyflwyno *'Pwll Geni mewn Dŵr Cludadwy mewn Blwch'* yn ddiweddar a phyllau sefydlog yn rhai o'r ystafelloedd esgor.
- Cynhaliodd Goruchwylwyr Bydwragedd Powys weithdai normalrwydd a genedigaeth fel rhan o'r hyfforddiant diweddaru blynyddol a gynigir i bob bydwraig.
- Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd Cwm Taf ran weithredol ac amlwg yn y gwaith o ymdrin â'r gyfradd uwch na'r cyfartaledd o doriadau cesaraidd trwy gymryd rhan yn y gweithgor Genedigaeth Naturiol Amlbroffesiynol.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Caerdydd a'r Fro wedi bod yn cyfrannu at fenter amlbroffesiynol sy'n canolbwyntio ar ostwng cyfradd y toriadau cesaraidd. Mae cyfradd y toriadau cesaraidd wedi gostwng yn sylweddol dros gyfnod o dair blynedd.

## Cau unedau mamolaeth

3.10 Mae'r holl ddarparwyr gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru yn defnyddio polisi galw cynyddol Cymru gyfan fel canllaw ar gyfer cau unedau. Rheolir y broses o gau unedau mamolaeth yn *'fewnol'* ac mae hynny'n digwydd am gyfnod byr fel rheol. Pan fydd angen cau uned, caiff menywod eu trosglwyddo i uned arall yn y bwrdd iechyd pan fo modd, er mwyn sicrhau bod y perygl o orfod teithio pellteroedd maith cyn lleied â phosibl. Ar ôl diwygio *'Rhestr Sbarduno'r Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer Hysbysu am Ddigwyddiadau'* mewn partneriaeth â'r Penaethiaid Gwasanaethau Bydwreigiaeth yn 2011, cytunwyd nad oedd rhaid hysbysu'r Awdurdod Goruchwylio Lleol bod uned wedi ei chau oni bai bod hynny'n effeithio ar y Bwrdd Iechyd cyfan, ac nid ar un rhan ohono'n unig, neu pe bai menyw a/neu ei babi yn cael eu rhoi mewn perygl o orfod teithio pellteroedd maith i dderbyn gofal priodol.

3.11 Yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn hysbyswyd yr AGLI am un achos o gau uned, sy'n llawer llai na'r 19 o hysbysiadau a dderbyniodd yn 2011-12. O'r 19 o hysbysiadau a dderbyniwyd yn 2011-2012, roedd 15 o'r unedau a gaewyd yn effeithio ar un rhan yn unig o'r bwrdd iechyd ac felly ni ddylid bod wedi hysbysu'r AGLI. Mae'r rhesymau dros gau'r unedau wedi eu crynhoi yn Nhabl 5.

### Tabl 5: Achosion o gau unedau ynghyd â rhesymau

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Dim gwelyau.** | **Caewyd yr uned am gyfnod o 11 awr.** |
| 0 | Dim crudau newyddenedigol. | |
| 0 | Prinder aelodau staff meddygol neu fydwreigiaeth. | |
| 0 | Lefelau cymhlethdod neu weithgarwch cynyddol. | |

3.12 Mae Goruchwylwyr Bydwragedd ym mhob Bwrdd Iechyd yn ymwneud â gweithredu'r polisi galw cynyddol ac yn gweithio gyda bydwragedd i sicrhau bod diogelwch menywod a babanod yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar adegau pan fydd pwysau cynyddol.

## Digwyddiadau clinigol

3.13 Mae gan holl ddarparwyr gwasanaethau mamolaeth Cymru bolisi sy'n sicrhau yr hysbysir am ddigwyddiadau anffafriol, y cânt eu hadolygu, ac y cymerir camau cywiro os yw'n ofynnol.

3.14 Fel y crybwyllwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, hysbysir yr AGLI am ddigwyddiadau anffafriol drwy gronfa ddata'r AGLI yn unol â'r Rhestr Sbardun ddiwygiedig ar gyfer Hysbysu am Ddigwyddiadau. Mae AGLI yn ymdrin yn bennaf ag adroddiadau am ddigwyddiadau anffafriol difrifol, lle y gallai ymarfer bydwreigiaeth sy'n is na'r safon ddelfrydol fod wedi cyfrannu at ganlyniad gwael neu ddamwain a fu born â digwydd i fam neu faban. Mae cangen diogelwch cleifion Llywodraeth Cymru hefyd yn derbyn adroddiadau am ddigwyddiadau difrifol sy'n ymwneud a phroblemau ehangach yn y gwasanaethau mamolaeth. Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn diweddaru'r gronfa ddata er mwyn nodi canlyniad adolygiad achos ar ôl hysbysiad am bob digwyddiad clinigol. Hysbyswyd AGLI am 56 o ddigwyddiadau clinigol yn ystod 2012-13 o'i gymharu â 74 yn 2011-12. Dyma'r math o ddigwyddiadau clinigol yr hysbyswyd yr AGLI amdanynt:

**Tabl 6: Digwyddiadau clinigol fesul math**

| **Digwyddiadau cynenedigol** |
| --- |
| Roedd 11 digwyddiad cynenedigol a oedd yn cynnwys esgor yn rhy gynnar, gwaedlif cynenedigol a chyneclampsia. Bu pum digwyddiad o farwolaeth yn y groth, rhai ohonynt lle yr oedd lleihad yn symudiadau'r ffetws wedi bod yn nodwedd cyn derbyn y fam i'r ysbyty. Mewn achosion o leihad yn symudiadau'r ffetws nid oedd y bydwragedd bob amser yn gallu dangos y cynhaliwyd digon o drafodaeth gyda'r menywod ynglŷn â cheisio asesiad clinigol llawn ac nid oedd y cofnodion yn darparu tystiolaeth o'r gofal a ddarparwyd ym mhob achos. Derbyniodd y bydwragedd a oedd yn rhan o ddiffygion o'r fath gyfnod o ymarfer dan oruchwyliaeth neu gymorth datblygiadol. |

| Digwyddiadau wrth esgor |
| --- |
| Bu 39 digwyddiad wrth esgor lle y nodwyd bod y ffactorau a gyfrannodd at y digwyddiad yn ymwneud â dehongli CTG, asesu a chynllunio gofal annigonol, gwneud penderfyniadau gwael yn ystod y cyfnod esgor, methiant i nodi menyw sâl neu ganlyniadau newyddenedigol gwael sy'n gysylltiedig â'r enedigaeth. Roedd tri o'r digwyddiadau'n ymwneud â gwaedlif ar ol geni ac roedd un yn argyfwng obstetreg lle na chafwyd diagnosis ymlaen llaw o gyflwyniad ffolenol. Pan fu baban farw yn y groth, nodwyd mai'r ffactorau a gyfrannodd oedd methiant i ymateb i ddarlleniad CTG gwael, methiant i ofyn am gymorth meddygol yn brydlon neu ddiffyg cynllunio gofal. Eto, roedd yn ofynnol i'r bydwragedd dan sylw ddilyn cyfnod o ymarfer dan oruchwyliaeth neu raglen cymorth datblygiadol. |
| **Digwyddiadau ôl-enedigol a chanlyniadau newyddenedigol gwael** |
| Bu saith digwyddiad ôl-enedigol a oedd yn cynnwys sepsis ôl-enedigol, gwaedlif eilaidd ar ôl esgor a mater amddiffyn plant. Adolygwyd materion ymarfer yn ôl y gofyn ac roedd ymarfer bydwreigiaeth is na'r safon ddelfrydol yn amlwg mewn pedwar o'r saith achos. Y thema fwyaf cyffredin oedd cynllunio gofal amhriodol a safonau gwael wrth gadw cofnodion. Ymdriniwyd â'r diffygion hyn trwy raglenni cymorth datblygiadol. |
| **Materion Proffesiynol** |
| Roedd materion proffesiynol yn ffactor mewn un digwyddiad yr hysbyswyd amdano eleni ac roedd yn ymwneud â didwylledd a gonestrwydd y fydwraig. Atgyfeiriwyd yr achos i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. |

3.15 Hysbyswyd yr AGLI am bum achos o farwolaeth mam yn ystod 2012-13, o'i gymharu â phedwar yn 2011-12. Nid oedd gofal bydwreigiaeth a oedd yn is na'r safon ddelfrydol yn ffactor yn unrhyw un o'r achosion hyn.

3.16 Fel y nodwyd ym Mhennod 2 yr adroddiad hwn, mae'r AGLI yn parhau i gynnal archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith ym mhob un o saith Bwrdd Iechyd Cymru i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus a chynnal sgiliau gorfodol. Mae Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn gweithio gyda Goruchwylwyr Bydwragedd yn ystod y flwyddyn i lunio rhaglenni cymorth datblygiadol neu ymarfer dan oruchwyliaeth i fydwragedd sydd â diffyg hyder efallai a/neu y mae angen diweddaru eu gwybodaeth mewn maes ymarfer penodol. Mae'r adolygiad

goruchwylio blynyddol yn galluogi Goruchwylwyr Bydwragedd i drafod anghenion unigol y bydwragedd y maent yn eu goruchwylio, o ran ymarfer a datblygiad, ac i'w cynorthwyo i sefydlu rhaglenni o ddysgu a phrofiad, yn ôl y gofyn. Dosberthir cylchlythyr tri misol yr AGLI, *'Goruchwylwyr Gwych'*, yn eang ar draws gwasanaethau mamolaeth Cymru er mwyn amlygu tueddiadau a themâu sy'n deillio o ddigwyddiadau, a gwersi a ddysgwyd, a chyfeirio Goruchwylwyr Bydwragedd at eitemau hanfodol i'w darllen er mwyn gwella arferion gwaith lleol.

3.17 Mae'r AGLI yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill sydd â chylch gwaith ym maes diogelwch, ac yn benodol y tîm Arolygiadau yn AGIC, Diogelwch Cleifion Llywodraeth Cymru, Cronfa Risg Cymru, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion a MBRRACE-UK, a benodwyd i gynnal Rhaglen Adolygu Canlyniadau Clinigol Mamau, Babanod Newyddanedig a Babanod (CEMACH gynt). Mae Goruchwylwyr Bydwragedd a Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI wedi bod yn gyfranwyr gweithgar at y gweithgorau a sefydlwyd i ddatblygu'r Weledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru[14].

## Tueddiadau o ran iechyd y cyhoedd

3.18 Mae gwasanaethau mamolaeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar dueddiadau iechyd y cyhoedd fel beichiogrwydd yn yr arddegau, gordewdra a chyfraddau ysmygu ac yfed sy'n parhau i fod yn uchel. Mae pob un o'r rhain yn ychwanegu at yr agenda llawn her ar gyfer darparu gwasanaethau mamolaeth. Mae Iechyd y Cyhoedd yn bwyslais penodol yn y Weledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru, ac mae Goruchwylwyr Bydwragedd ledled Cymru wedi parhau i arwain neu gymryd rhan mewn mentrau i ddylanwadu ar arfer gorau mewn meysydd iechyd y cyhoedd. Mae darparwyr unigol gwasanaethau mamolaeth yn rhagweithiol o ran cymryd camau i nodi tueddiadau a gwneud newidiadau i arferion gwaith er mwyn gwella gofal a chanlyniadau i fenywod a babanod.

[14] Llywodraeth Cymru (2011) Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru a lansiwyd ym mis Medi 2011 ac sydd ar gael yn http://cymru.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/maternity/?lang=cy

## Pennod 4: Cwynion yn ymwneud â chyflawni'r swyddogaeth oruchwylio

4.1 Ymdrinnir â chwynion yn erbyn yr AGLI a/neu Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn unol â gweithdrefnau cwynion Llywodraeth Cymru. Disgrifir y broses o ymdrin â chwynion yng Nghanllawiau a Safonau'r AGLI.

4.2 Ni dderbyniodd yr AGLI unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod 2012-2013. Fodd bynnag, mae adolygiad manwl o gyfres o gwynion a nodwyd am gamau'r AGLI, a ddechreuwyd yn 2011-12, yn parhau. Mae Uned Gwynion Llywodraeth Cymru'n cynorthwyo AGIC â'r achos hwn.

# Pennod 5: Edrych i'r dyfodol – ein gwaith yn 2013-2014 a thu hwnt

5.1 Yr hyn sydd wedi dod yn fwy a mwy amlwg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yw bod angen i'r ffordd y darperir goruchwyliaeth ledled Cymru esblygu a newid er mwyn bodloni'n briodol y gofynion y mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn eu gosod yn y blynyddoedd sydd i ddod, ac yn fwyaf pwysig, er mwyn i fydwragedd gael eu cefnogi'n briodol.

5.2 Mae cynnydd yn nifer y bydwragedd, gostyngiad yn nifer y bydwragedd sy'n ymgeisio i fod yn oruchwylwyr a nifer gynyddol o uwch fydwragedd yn ymddiswyddo o'r swyddogaeth Goruchwyliwr Bydwragedd yn golygu bod y model cyfredol o oruchwyliaeth yn anghynaliadwy. Ledled Cymru mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i gael trafferthion wrth geisio cydbwyso eu cyfrifoldebau fel Goruchwyliwr Bydwragedd a'r heriau clinigol cynyddol a gyflwynir gan ymarfer bydwreigiaeth gyfoes.

5.3 Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, mae AGLl Cymru wedi gweithio gyda Nyrsys Gweithredol a Phenaethiaid Bydwreigiaeth ledled Cymru i ddatblygu model newydd o oruchwyliaeth a fydd yn addas i'r diben ac yn gwrthsefyll y pwysau a'r galw sy'n newid. Ceir ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu model sy'n gwneud swyddogaethau ac atebolrwydd yn fwy amlwg ac yn galluogi'r Goruchwylwyr Bydwragedd i neilltuo mwy o amser i'w swyddogaeth.

5.4 Mae'r AGLl wedi sefydlu grŵp llywio i fwrw ymlaen â diogelu'r agenda goruchwylio ar gyfer y dyfodol. Disgwylir i'r grŵp nodi ei argymhellion erbyn diwedd mis Medi 2013.

5.5 Er bod yr adolygiad o oruchwyliaeth yng Nghymru'n parhau bydd yr AGLl yn parhau i gefnogi bydwragedd a Goruchwylwyr Bydwragedd i fod yn rhagweithiol wrth ymateb i'r heriau sy'n wynebu darparwyr mamolaeth ledled y GIG yng Nghymru.